Rhif ymchwil gymdeithasol: 97/2025

Dyddiad cyhoeddi: 14/10/2025

# Gwerthusiad o'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY): arolwg o rieni a gofalwyr

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-505-3

Gwerthusiad o'r system anghenion dysgu ychwanegol: arolwg o rieni a gofalwyr

Awduron: Hefin Thomas, Brett Duggan, Sioned Lewis, Jennifer Lane, Sam McAlister-Wilson, Anest Williams

Adroddiad Ymchwil Llawn: Thomas, H; Duggan, B; Lewis, S; Lane, J; McAlister-Wilson, S; Williams, A (2025). Gwerthusiad o'r system anghenion dysgu ychwanegol: arolwg o rieni a gofalwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 97/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-arolwg-o-rieni-gofalwyr

Safbwyntiau’r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

# Cynnwys

Cynnwys ... 1
Rhestr o dablau ... 2
Rhestr o ffigurau ... 2
Rhestr termau ... 4
1. Cyflwyniad a chefndir ... 5
2. Methodoleg ... 7
3. Canfyddiadau ... 10
4. Crynodeb o'r canfyddiadau ... 75
Atodiad A: dadansoddiad ychwanegol – sylwadau testun agored ... 80

# Rhestr o dablau

Tabl 1. Cynlluniau cymorth blaenorol a dderbyniwyd gan blant ymatebwyr ........................ 14

# Rhestr o ffigurau

Ffigur 1. P'un a oedd rhieni yn meddwl bod angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu ai peidio ........................ 10
Ffigur 2. Awdurdod lleol lle’r oedd plant yn derbyn eu haddysg ........................ 11
Ffigur 3. Lle derbyniodd plant eu haddysg ........................ 12
Ffigur 4. Grŵp blwyddyn plant ........................ 13
Ffigur 5. A oedd gan blant Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ........................ 15
Ffigur 6. Pwy oedd yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDU plentyn ........................ 16
Ffigur 7. Rhesymau pam nad oes gan blentyn CDU ........................ 17
Ffigur 8. I ba raddau yr oedd y cymorth a ddarparwyd gan un ysgol/lleoliad yn diwallu anghenion y plentyn (wedi'i ddadansoddi yn ôl p'un a oedd gan y plentyn CDU ai peidio) ........................ 20
Ffigur 9. I ba raddau y mae'r cymorth a ddarperir gan bob lleoliad yn diwallu anghenion eu plentyn ........................ 23
Ffigur 10. Ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau ynghylch ADY a'r system ADY ........................ 25
Ffigur 11. I ba raddau yr oedd y wybodaeth yn glir ac yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY ........................ 27
Ffigur 12. I ba raddau y mae angen rhagor o wybodaeth/cyngor/canllawiau ar rieni ........................ 30
Ffigur 13. Angen rhagor o wybodaeth/cyngor/canllawiau ........................ 31
Ffigur 14. Ymatebion rhieni i ddatganiadau oedd yn ymwneud ag adnabod ADY ........................ 34
Ffigur 15. Ymatebion rhieni i ddatganiadau sy'n ymwneud â'r cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ........................ 39
Ffigur 16. Ymatebion rhieni i ddatganiadau sy'n ymwneud â'r broses o baratoi'r CDU ........................ 42
Ffigur 17. Pwy oedd yn darparu’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a amlinellir yn CDU eu plentyn ........................ 45

Ffigur 18. Pwy oedd yn darparu’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a amlinellir yn CDU eu plentyn....46
Ffigur 19. Ymatebion rhieni i ddatganiadau sy'n ymwneud â'r DDdY a ddarparwyd i'w plentyn....47
Ffigur 20. A oedd plentyn wedi symud o un lleoliad addysg i'r llall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf....51
Ffigur 21. Ymatebion rhieni i gwestiynau am y broses bontio ....52
Ffigur 22. Ymatebion rhieni i ddatganiadau sy'n ymwneud â rheoli ADY ar draws sawl lleoliad ....53
Ffigur 23. Ymwybyddiaeth rhieni o'u hawliau i herio penderfyniadau o dan y system ADY .55
Ffigur 24. Ymwybyddiaeth rhieni o'u hawliau i herio'r penderfyniadau o dan y system ADY 56
Ffigur 25. A oedd rhieni wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol mewn perthynas ag ADY....58
Ffigur 26. A gafodd yr anghydfod ei ddatrys ....60
Ffigur 27. Ymatebion gan rieni plant â CDU i ddatganiadau sy'n ymwneud â bodlonrwydd â'r system ADY ....62
Ffigur 28. Ymatebion gan rieni nad oedd gan eu plentyn CDU i ddatganiadau oedd yn ymwneud â bodlonrwydd â'r system ADY ....65
Ffigur 29. Pwy ddarparodd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a amlinellir yn CDU eu plentyn....68
Ffigur 30. Ymatebion gan rieni plant â CDU ac a oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref i ddatganiadau yn ymwneud â bodlonrwydd â'r system ADY....69

# Rhestr termau

**AAA**

Anghenion Addysgol Arbennig

**ADY**

Anghenion Dysgu Ychwanegol

**AHY**

Addysg Heblaw Yn yr Ysgol

**ALI**

Awdurdod lleol

**CADY(au)**

Cydlynydd/Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol

**CAU**

Cynllun Addysg Unigol

**CDS**

Cynllun Dysgu a Sgiliau

**CDU**

Cynllun Datblygu Unigol

**CYBLD**

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgybl

**Cynllun AIG**

Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal

**DDdY**

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

**SAB**

Sefydliad Addysg Bellach

**UCD**

Uned Cyfeirio Disgyblion

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## Gwerthuso'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae’r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni ymchwil Arad i gynnal gwerthusiad ffurfiannol dros gyfnod o bedair blynedd yn canolbwyntio ar weithredu'r system ADY. Mae dau adroddiad eisoes wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r gwerthusiad:

- Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cwmpasu (2023): yn cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf y gwerthusiad a'r blaenoriaethau ar gyfer y camau sy'n weddill
- Gwerthusiad o'r system ADY: arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol (2025): arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), sefydliadau addysg bellach (SABau), sefydliadau ôl-16 arbenigol annibynnol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o rieni a gofalwyr am eu profiadau o'r system ADY. Roedd yr arolwg ar agor o fis Mawrth i Ebrill 2025.

Er mwyn canolbwyntio ar safbwyntiau rhieni, mae dadansoddiad o'r cwestiynau testun agored hynny a ofynnodd i rieni am wybodaeth ychwanegol am eu plentyn wedi ei gynnwys yn Atodiad A ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o gwestiynau testun agored sy'n ymwneud â:

- sut mae rhieni yn disgrifio anghenion dysgu eu plentyn
- y math(au) o gymorth a ddarperir i ddiwallu anghenion eu plentyn
- y mathau o leoliadau yr oedd plant wedi symud rhyngddynt, fel yr adroddwyd hynny gan rieni yr oedd eu plant wedi symud o un lleoliad i’r llall
- pwy a ddarparodd DDdY eu plentyn

Ni chyflwynwyd prif gwestiynau'r arolwg i ymatebwyr a atebodd nad oedd angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu. Fodd bynnag, gwahoddwyd yr ymatebwyr hyn i wneud sylwadau ar y system ADY a'u plentyn. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad o'r sylwadau testun agored hyn hefyd yn Atodiad A ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Mae adroddiad technegol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn ar gael, sy’n cynnwys cyfres gynhwysfawr o dablau sy'n nodi holl ganfyddiadau'r arolwg meintiol.

## Nodyn ar derminoleg

- Er mwyn cadw'r testun yn gryno, defnyddir y term "rhieni" yn yr adroddiad hwn i ddisgrifio ymatebwyr â chyfrifoldeb rhieni (h.y. rhieni a gofalwyr).
- Defnyddir y term "plant" i gyfeirio at y plant hynny y cwblhaodd ymatebwyr (rhieni) yr arolwg amdanynt
- Defnyddir y term "ymatebion" yn hytrach na "ymatebwyr" wrth adrodd y canfyddiadau mewn siartiau a thestun cysylltiedig. Mae hyn oherwydd bod rhai ymatebwyr wedi ymateb ar ran mwy nag un plentyn

# 2. Methodoleg

## Holiadur

Dyluniwyd yr holiadur gan Arad gyda mewnbwn swyddogion a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru. Fe strwythurwyd yr holiadur yn seiliedig ar y theori newid yn yr adroddiad cwmpasu (2023).

Roedd yr arolwg yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau agored a chwestiynau caeedig. Cafodd y cwestiynau eu profi'n wybyddol gyda sampl fach o rieni a gofalwyr cyn lansio'r arolwg.

Ni ddangoswyd rhai o gwestiynau'r arolwg i bob ymatebydd. Er enghraifft, dim ond rhieni a ddywedodd bod gan eu plentyn Gynllun Datblygu Unigol (CDU) a ofynnwyd cwestiynau yn ymwneud â'r cynlluniau hyn. Gofynnwyd fersiynau gwahanol o rai o'r cwestiynau hefyd i rieni plant a oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref.

Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg ar gael yn yr adroddiad technegol cysylltiedig.

## Dosbarthu'r arolwg

Dosbarthwyd dolen i'r arolwg drwy e-bost i gydlynwyr ADY (CADYau) ac ysgolion a oedd wedi cytuno i ddosbarthu'r arolwg i rieni wrth ymateb i'r arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn 2024.

Hyrwyddwyd yr arolwg hefyd:

- yng nghylchlythyr Dysg Llywodraeth Cymru
- yn y bwletin ADY
- ar sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar addysg
- drwy rwydweithiau rhanddeiliaid

## Sampl

Cynlluniwyd yr arolwg i gasglu ystod o brofiadau ymhlith rhieni, gan gynnwys rhieni plant sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu gyda CDU a'r rheiny heb CDU. Cafwyd 2062 o ymatebion i gwestiynau proffil yr arolwg (gan gynnwys ymatebion gan 101 o rieni a ddewisodd ateb am blentyn ychwanegol). Gofynnwyd prif gwestiynau'r arolwg i ymatebwyr dim ond os oedd eu plentyn:

- o oedran ysgol gorfodol (neu'n hŷn) a/neu'n mynychu ysgol a gynhelir, ac
- angen cymorth ychwanegol i ddysgu (neu'n debygol o fod angen cymorth ychwanegol)

Dywedodd 70% o'r ymatebion (1441 allan o 2049) fod angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu. Dywedodd 9% arall nad oedden nhw'n siŵr ond yn meddwl eu bod nhw'n debygol o wneud. Gofynnwyd y prif gwestiynau arolwg i'r rhieni hyn. Dywedodd 19% o'r

ymatebion nad oedd angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu a dywedodd 2% arall nad oeddent yn siŵr ond yn meddwl nad oeddent yn debygol o wneud hynny. Ni ofynnwyd prif gwestiynau'r arolwg i'r rhieni hyn ond fe'u gwahoddwyd i gynnig sylwadau ar y system ADY a'u plentyn. Felly, cyfanswm nifer yr ymatebion i brif gwestiynau'r arolwg oedd 1621 (gan gynnwys 93 o ymatebion gan riant sy'n ateb ar gyfer plentyn ychwanegol).

## Siartiau a data yn yr adroddiad hwn

Mae'r canrannau a ddangosir yn adlewyrchu cyfran yr ymatebion i bob cwestiwn (a all gynnwys mwy nag un ymateb gan rieni a atebodd ynglŷn â mwy nag un plentyn). Nodir cyfanswm nifer yr ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Gall hyn amrywio oherwydd:

- ni wnaeth bob rhiant ymateb i bob cwestiwn
- cyflwynwyd rhai cwestiynau i is-grwpiau penodol o ymatebwyr yn unig

Pan gyflwynwyd cwestiynau i is-grwpiau penodol o ymatebwyr yn unig, nodir hyn.

## Cyfyngiadau a nodiadau ar ddehongli

Er bod yr arolwg wedi'i hyrwyddo a'i ddosbarthu'n eang, ni ellir ystyried bod sampl yr arolwg yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyffredinol. Felly, dylid bod yn ofalus wrth geisio cyffredinoli'r canfyddiadau y tu hwnt i sampl yr astudiaeth.

Roedd y sylwadau ysgrifenedig a ddarparwyd mewn ymateb i gwestiynau'r arolwg testun agored yn aml yn cyflwyno safbwyntiau mwy beirniadol neu negyddol. Ar adegau, gall ymddangos bod y dadansoddiad o'r data ansoddol yn anghyson â'r data meintiol a gyflwynir mewn siartiau a ffigurau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai dim ond cyfran o ymatebwyr wnaeth ddewis darparu sylwadau ysgrifenedig. Ar ben hynny, roedd ymatebwyr a oedd wedi darparu ymatebion mwy negyddol i'r cwestiynau arolwg caeedig (er enghraifft, dewis 'anghytuno'n gryf' neu 'anghytuno'), yn fwy tebygol o ddarparu sylwadau ysgrifenedig na'r rhai a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau caeedig yr arolwg.

Cododd ymatebwyr a ddarparodd ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau arolwg testun agored ystod eang o themâu. Mae adrannau’r adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion ysgrifenedig hyn yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf yn gyntaf. Ychydig iawn o gwestiynau oedd lle nodwyd un thema gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Dylid nodi, felly, bod pob un o'r themâu a grynhowyd mewn adrannau perthnasol wedi'u nodi gan leiafrif o ymatebwyr, neu yn wir gan leiafrif cymharol fach, oni nodir yn wahanol.

## Disgrifyddion a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar ganrannau'r ymatebwyr

Wrth gyflwyno data yn seiliedig ar ddadansoddiad meintiol o'r cwestiynau arolwg caeedig, defnyddiwyd y disgrifyddion canlynol yn yr adroddiad hwn:

- mwyafrif helaeth (mwy na 85%)
- mwyafrif (70 i 84%)
- dros hanner (55 i 69%)
- tua hanner (46 i 54%)
- llai na hanner (30 i 45%)
- lleiafrif (15 i 29%)
- lleiafrif bychan (o dan 15%)

# 3. Canfyddiadau


## Cymorth ychwanegol i ddysgu

Fe ofynnom y cwestiwn canlynol i rieni:

A oes angen cymorth ychwanegol ar eich plentyn i ddysgu? Er enghraifft, gallai eich plentyn:

- ei chael hi'n anoddach dysgu na phlant eraill o'r un oedran
- fod ag anabledd sy'n golygu na allant ddefnyddio, neu ei chael yn anodd defnyddio, cyfleusterau ar gyfer dysgu yn y feithrinfa, ysgol, neu goleg lleol

**Ffigur 1. P'un a oedd rhieni yn meddwl bod angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu ai peidio**




N = 2049

Mae Ffigur 1 yn dangos bod 70% o'r ymatebion (1441 allan o 2049) wedi ateb bod angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu. Dywedodd 9% arall nad oedden nhw'n siŵr ond yn meddwl eu bod nhw'n debygol o fod angen. Gofynnwyd prif gwestiynau'r arolwg i'r rhieni hyn am eu barn ar y system ADY.

Dywedodd 19% o'r ymatebion nad oedd angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu a dywedodd 2% arall nad oeddent yn siŵr ond yn meddwl nad oeddent yn debygol o wneud hynny. Ni ofynnwyd prif gwestiynau'r arolwg i'r rhieni hyn ond fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau ar y system ADY a'u plentyn. Dim ond nifer gymharol fach o ymatebion (53) a

dderbyniwyd. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad o'r sylwadau testun agored hyn yn Atodiad A.


## Proffil yr ymatebion i brif gwestiynau'r arolwg

Mae'r adran hon yn amlinellu proffil ymatebion 1621 i brif gwestiynau'r arolwg yn unig.

### Awdurdod lleol

Gofynnom i rieni ddewis yr awdurdod lleol lle’r oedd eu plentyn yn derbyn eu haddysg

**Ffigur 2. Awdurdod lleol lle’r oedd plant yn derbyn eu haddysg**





N = 1621 (yn cynnwys mwy nag un ymateb i'r rhai a atebodd am blentyn ychwanegol).

Mae Ffigur 2 yn dangos bod y gyfran fwyaf o blant (13%), y cyfeiriodd yr ymatebion atynt yn derbyn eu haddysg yn Rhondda Cynon Taf. Derbyniodd y gyfran leiaf o blant (1%) eu haddysg ym Merthyr Tudful. Cafwyd ateb gan ymatebydd o’r holl awdurdodau lleol.

### Lleoliad addysg

Gofynnom i rieni ble mae eu plentyn wedi derbyn eu haddysg.

**Ffigur 3. Lle derbyniodd plant eu haddysg**




N = 1604. Nodyn: gallai rhieni fod wedi ticio mwy nag un opsiwn ymateb, ac felly efallai nad yw cyfanswm yr ymatebion yn cyfateb i 100%.


Mae Ffigur 3 yn dangos bod y gyfran fwyaf o blant (38%), yr ymatebodd yr ymatebwyr amdanynt, yn derbyn eu haddysg mewn ysgol gynradd. Roedd 27% arall yn derbyn eu haddysg mewn ysgol uwchradd. Dim ond 1% o blant oedd yn derbyn eu haddysg ym mhob un o'r lleoliadau canlynol:

- Sefydliad addysg bellach
- Ysgol annibynnol
- Uned cyfeirio disgyblion
- Addysg heblaw yn yr ysgol

### Grŵp blwyddyn

Gofynnom i rieni pa grŵp blwyddyn yr oedd eu plentyn ynddo ar hyn o bryd.

**Ffigur 4. Grŵp blwyddyn plant**




N = 1443

Mae Ffigur 4 yn dangos bod mwy na hanner (57%) y plant yn un o'r grwpiau blwyddyn cynradd (h.y. Meithrin / Cyn-ysgol – Blwyddyn 6). Roedd 43% arall yn un o'r grwpiau blwyddyn addysg uwchradd neu ôl-orfodol (h.y. Blynyddoedd 7-14).

### Cynlluniau cymorth blaenorol

Rhwng 2022 a 2025, mae plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cael eu symud fesul cam o'r system AAA i'r system ADY. Yn y system ADY, mae CDU yn disodli'r cynlluniau cymorth presennol megis: Datganiadau AAA, Cynlluniau Addysg Unigol ar gyfer dysgwyr ar Weithredu Ysgol/Gweithredu Ysgol a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau ar gyfer dysgwyr ôl-16.

Gofynnom i rieni a oedd eu plentyn wedi derbyn un o'r cynlluniau AAA blaenorol neu gynllun Addysg, iechyd a gofal (EHC) gan ysgol yn Lloegr.

**Tabl 1. Cynlluniau cymorth blaenorol a dderbyniwyd gan blant ymatebwyr**

| Cwestiwn: Ydy'ch plentyn wedi derbyn unrhyw un o'r cynlluniau cymorth canlynol? | Ydy, wedi cael hwn o'r blaen | Ydy, mae ganddynt ar hyn o bryd | Nac ydy | Dwi ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| AAA: Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig | 16% | 10% | 61% | 13% |
| AAA: Cynllun Addysg Unigol | 22% | 28% | 42% | 9% |
| AAA: Cynllun Dysgu a Sgiliau | 4% | 5% | 66% | 25% |
| Cynllun addysg, iechyd a gofal (*Education Health and Care plan*) — mewn ysgolion yn Lloegr | 3% | 2% | 84% | 11% |

N=1333 i 1518

- Dywedodd 26% o'r ymatebion fod gan eu plentyn AAA ar hyn o bryd (neu o'r blaen) AAA: Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig
- Dywedodd 50% o'r ymatebion fod gan eu plentyn AAA ar hyn o bryd (neu o'r blaen) AAA: Cynllun Addysg Unigol (CAU)
- Dywedodd 9% o'r ymatebion fod gan eu plentyn AAA ar hyn o bryd (neu o'r blaen) AAA: Cynllun Dysgu a Sgiliau (CDS),
- Dywedodd 5% o'r ymatebion fod gan eu plentyn gynllun Gofal Iechyd Addysg (EHCP) ar hyn o bryd (neu o'r blaen)


## Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)

Rhwng 2022 a 2025, mae plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cael eu symud fesul cam o'r system AAA i'r system ADY. Yn y system ADY, mae CDU yn disodli'r cynlluniau cymorth presennol megis: Datganiadau AAA, Cynlluniau Addysg Unigol (CAUau) ar gyfer dysgwyr ar Weithredu Ysgol/Gweithredu Ysgol a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau (CDSau) ar gyfer dysgwyr ôl-16.

### A oedd gan blentyn CDU

Gofynnom i rieni a oedd gan eu plentyn CDU

**Ffigur 5. A oedd gan blant Gynllun Datblygu Unigol (CDU)**





N = 1621

Mae Ffigur 5 yn dangos bod 58% o'r ymatebion wedi ateb bod gan eu plentyn CDU, dywedodd 32% arall nad oedd CDU mewn lle, ac nid oedd y 10% arall yn siŵr.

### Pwy sy'n cynnal y CDU

Fe ofynnom hefyd i rieni plant â CDU pwy oedd yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDU eu plentyn

**Ffigur 6. Pwy oedd yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDU plentyn**





N = 937. Nodyn: gallai rhieni fod wedi ticio mwy nag un opsiwn ymateb, ac felly efallai nad yw cyfanswm yr ymatebion yn cyfateb i 100%.

Mae Ffigur 6 yn dangos o'r ymatebion hynny a ddywedodd bod gan eu plentyn CDU (felly heb gynnwys rhieni a ddywedodd nad oedd gan eu plentyn CDU neu nad oeddent yn siŵr), dywedodd y gyfran fwyaf, 77%, mai'r ysgol oedd yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDU eu plentyn.

### Dim CDU

Gofynnwyd i rieni a ddywedodd nad oes gan eu plentyn CDU ddewis, o blith rhestr o opsiynau, y rheswm pam nad oes gan eu plentyn CDU.

**Ffigur 7. Rhesymau pam nad oes gan blentyn CDU**




N=480. Nodyn: gallai rhieni fod wedi ticio mwy nag un opsiwn ymateb, ac felly efallai nad yw cyfanswm yr ymatebion yn cyfateb i 100%.

Mae Ffigur 7 yn dangos bod rhieni fwyaf tebygol o ddweud nad oedd gan eu plentyn CDU oherwydd bod lleoliad addysg eu plentyn (neu'r awdurdod lleol) wedi penderfynu nad oedd angen DDdY arnynt. Nododd canran debyg reswm 'arall' mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

### Dim CDU – sylwadau testun agored mewn ymateb i Arall *(*nodwch os gwelwch yn dda*)*

Roedd gan rieni a ddewisodd yr opsiwn ymateb 'arall (nodwch os gwelwch yn dda)' gyfle i nodi pam nad oedd gan eu plentyn CDU trwy lenwi blwch sylwadau testun agored. Dewisodd 178 o ymatebwyr wneud hynny. Roedd y rhain yn aml yn ymatebion un llinell nad oeddent yn nodi rhesymau yn fanwl. Darperir crynodeb o'r themâu a godir amlaf isod:

### CDU yn gysylltiedig â diagnosis neu asesiad

Nododd rhieni'n aml nad oedd eu plentyn wedi cael diagnosis eto, gan fynegi canfyddiad neu awgrymu bod angen diagnosis er mwyn i'w plentyn gael cynllun. Nododd y rhieni hyn eu bod yn aros am asesiadau, yn aml yn mynegi rhwystredigaeth am y broses.

### Yn aros am CDU

Esboniodd rhieni eraill eu bod wedi gofyn am CDU neu wedi mynd trwy brosesau ac roeddent yn aros am benderfyniad gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Mewn rhai achosion, nododd rhieni eu bod ar gam cynnar yn y broses, ar ôl cael cyfarfod cychwynnol gyda'r ysgol neu eu bod yn aros am ragor o wybodaeth. Mewn achosion eraill, esboniodd rhieni eu bod wedi apelio yn erbyn penderfyniadau i beidio â darparu CDU a'u bod yn aros am ganlyniadau apeliadau.

### Gwrthod paratoi CDU

Roedd sylwadau gan rai rhieni yn esbonio eu bod wedi gofyn am CDU ond eu bod wedi cael gwybod nad oedd angen cynllun ar eu plentyn. Esboniodd rhai o'r rhieni hyn eu bod wedi cael gwybod nad oedd angen DDdY ar anghenion eu plentyn ac y gellid diwallu eu hanghenion trwy ddarpariaeth gyffredinol.

### Dim trafodaeth am CDU

Mewn rhai achosion, nododd rhieni nad oeddent wedi bod yn rhan o drafodaethau am CDU, neu nad oedd y cwestiwn o CDU erioed wedi'i grybwyll gan yr ysgol.

### Dim CDU – sylwadau testun agored mewn ymateb i *Os dymunwch, rhowch wybodaeth ychwanegol*

Roedd gan yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn caeedig ar y rhesymau pam nad oedd gan eu plentyn CDU yr opsiwn hefyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol trwy flwch sylwadau testun agored, dewisodd 180 o ymatebwyr wneud hynny. Amlinellir crynodeb o'r ymatebion a ddarparwyd isod:

### Nid oes angen CDU

Tynnodd nifer o rieni sylw at sut yr oeddent wedi gofyn am CDU ar gyfer eu plentyn ond bod ysgol eu plentyn wedi penderfynu nad oedd angen CDU. Adroddodd rhai rhieni fod ysgol eu

plentyn wedi gwrthod eu ceisiadau am CDU, gan nodi amrywiaeth o resymau a oedd yn cynnwys:

- yr ysgol yn penderfynu nad oedd gan y plentyn ADY
- yr ysgol yn derbyn bod gan y plentyn ADY ond yn penderfynu y gellid diwallu eu hanghenion trwy 'ddarpariaeth gyffredinol' yn hytrach na DDdY
- nid oedd y plentyn wedi ‘cwympo y tu ôl’ yn academaidd yn ddigonol i fod angen DDdY
- y plentyn heb gael diagnosis am gyflwr iechyd

Mewn rhai achosion, roedd rhieni wedi anghytuno â phenderfyniad ysgol eu plentyn i beidio â darparu CDU ac yn sôn am ofyn am CDU ar sawl achlysur oherwydd pryderon parhaus nad oedd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu. Nododd nifer o rieni fod ysgolion yn defnyddio Proffiliau Un Dudalen pan nad oedd CDUau yn cael eu darparu, gan fynegi eu hanfodlonrwydd â hyn.

Dywedodd nifer fach o rieni eu bod wedi tynnu eu plentyn o'r ysgol (er enghraifft, symud i ysgol arall neu gael eu haddysgu gartref) oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu o ganlyniad i beidio â chael CDU ar waith.

### Cefnogaeth heb CDU

Nododd rhai rhieni nad oedd eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol yn yr ysgol, gan nodi bod disgwyl i'w hanghenion addysgol gael eu diwallu o dan 'ddarpariaeth gyffredinol'. Fodd bynnag, roedd y rhieni hyn yn teimlo nad oedd hyn yn ddigonol ac yn effeithio'n negyddol ar gynnydd a chanlyniadau addysgol eu plentyn.

Soniodd rhieni eraill am fod yn fodlon â'r gefnogaeth yr oedd eu plentyn yn ei dderbyn trwy ddarpariaeth gyffredinol, gan nodi eu bod yn teimlo bod y gefnogaeth yn ddigonol ac yn fuddiol i'w plentyn. Soniodd rhai o'r rhieni hyn am gyfathrebu da gydag ysgol eu plentyn a gallu trafod anghenion parhaus pan fo angen.

### CDU yn gysylltiedig â diagnosis neu asesiad

Gan adleisio sylwadau a nodwyd uchod, roedd yn farn gyffredin ymhlith rhieni a ddarparodd sylwadau ychwanegol bod angen cael diagnosis o gyflwr iechyd er mwyn i'w plentyn gael CDU. Nododd nifer o rieni eu bod yn aros am asesiadau iechyd ac mai dyma'r rheswm nad oedd eu plentyn wedi cael CDU eto.


Nododd rhai rhieni fod gan eu plentyn ddiagnosis ar gyfer cyflwr iechyd ond nad oedd hyn yn ymddangos i effeithio ar benderfyniad yr ysgol ynghylch a oedd angen CDU hefyd, gyda rhieni'n nodi bod anghenion eu plentyn yn hytrach yn cael eu diwallu o dan 'ddarpariaeth gyffredinol'. Fodd bynnag, mynegodd nifer o rieni plant â diagnosis am gyflwr iechyd nad oedd ganddynt CDU hefyd ddiffyg eglurder ynghylch pam nad oedd ganddynt CDU, o ystyried bod eu plentyn wedi cael diagnosis.

*Llais y rhiant*
Disgrifiodd rhai rhieni eu bod yn eiriolwr dros eu plentyn, gan fynegi rhwystredigaeth nad oedd darparwyr addysg yn gwrando arnynt. Soniodd y rhieni hyn am drafferthion yr oeddent wedi'u hwynebu er mwyn trefnu trafodaethau gyda'r ysgol ynghylch anghenion eu plentyn, gan nodi oedi hir yn y cyfathrebu a diffyg eglurder ynghylch y broses ar gyfer adnabod ADY a sicrhau cefnogaeth.

## Barn ar y cymorth a ddarperir (gan un ysgol/lleoliad)

Gofynnwyd i rieni a ddywedodd bod eu plentyn wedi derbyn eu haddysg mewn un ysgol / lleoliad addysgol i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion eu plentyn.

**Ffigur 8. I ba raddau yr oedd y cymorth a ddarparwyd gan un ysgol/lleoliad yn diwallu anghenion y plentyn (wedi'i ddadansoddi yn ôl p'un a oedd gan y plentyn CDU ai peidio)**




Mae Ffigur 8 yn dangos bod:

- llai na hanner (41%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y gefnogaeth a ddarperir gan ysgol neu ddarparwr addysg eu plentyn yn diwallu eu hanghenion. Roedd nifer tebyg (44%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â hyn
- rhieni a ddywedodd bod gan eu plentyn CDU yn fwy tebygol o gytuno bod y cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion eu plentyn (19% yn "cytuno'n gryf" a 30% arall yn "cytuno") o'i gymharu â'r rhai a ddywedodd nad oes gan eu plentyn CDU (4% yn "cytuno'n gryf" a 19% arall yn "cytuno")

- dros hanner yr ymatebion (57%), lle dywedwyd nad oedd gan y plentyn CDU, naill ai'n "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" bod y cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion eu plentyn

### Barn am y cymorth a ddarperir (gan un ysgol/lleoliad) – sylwadau testun agored

Gwahoddwyd rhieni i ddarparu gwybodaeth ychwanegol, os oeddent yn dymuno, mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, trwy flwch sylwadau testun agored. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf ar draws y 705 o ymatebion a dderbyniwyd. Nodwyd ystod eang o themâu mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ac ni chodwyd un thema gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Dylid nodi, felly, fod pob un o'r themâu a grynhoir isod wedi'u nodi gan leiafrif neu leiafrif bach o'r 705 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd y rhai a oedd wedi anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion eu plentyn yn fwy tebygol o fod wedi darparu ymateb ysgrifenedig nag a oedd wedi cytuno neu gytuno'n gryf â hyn. Adlewyrchir hyn yn y themâu a nodir isod.

### Diffyg darpariaeth, capasiti ac adnoddau

Adroddodd rhieni'n aml fod diffyg darpariaeth, capasiti (e.e. gweithlu) a/neu adnoddau (e.e. cyllid) i alluogi anghenion eu plentyn i gael eu diwallu. Cyfeiriodd y rhieni hyn at amrywiaeth o enghreifftiau oedd yn gysylltiedig â'r materion hyn fel:

- nifer annigonol o weithwyr cymorth dysgu
- maint dosbarthiadau yn rhy fawr i'w plentyn
- diffyg cyllid ar gyfer cymorth neu ddarpariaeth ychwanegol, er enghraifft, therapi iaith a lleferydd

### Darpariaeth a chymorth anaddas neu annigonol

Dywedodd nifer o rieni nad oedd y cymorth neu'r ddarpariaeth yr oedd eu plentyn yn ei dderbyn yn addas neu'n annigonol i ddiwallu anghenion eu plentyn. Ymhlith yr enghreifftiau roedd rhai rhieni oedd:

- yn teimlo nad oedd amgylchedd addysg prif ffrwd eu plentyn yn addas iddynt, ac yn teimlo bod angen darpariaeth amgen arnynt
- wedi cael gwybod nad oedd gan eu plentyn ADY a'u bod yn anfodlon â'r penderfyniad hwn a'r ddarpariaeth yr oedd eu plentyn yn ei dderbyn
- yn adrodd nad oedd y DDdY a ddisgrifir yn CDU eu plentyn yn cael ei gyflwyno
- yn adrodd nad oedd lefel ddigonol o gefnogaeth i'w plentyn (e.e. cymorth un-i-un)
- yn nodi fod deunyddiau ystafell ddosbarth yn anaddas i'w plentyn, er enghraifft, adnoddau digidol

### Pryderon sy'n ymwneud ag ysgol neu awdurdod lleol eu plentyn

Cododd rhai rhieni bryderon ynglŷn ag ysgol eu plentyn a/neu eu hawdurdod lleol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys pryderon ynglŷn â:

- diffyg ymwybyddiaeth a/neu ddealltwriaeth am ADY ac angen mwy o hyfforddiant ar fathau penodol o ADY
- anghysondeb mewn lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ADY ac anghenion ADY dysgwyr unigol mewn ysgolion, er enghraifft, mae rhai athrawon yn llai ymwybodol nag eraill o ADY plentyn
- diffyg cyfathrebu gan ysgol neu awdurdod lleol eu plentyn
- adolygiadau o CDUau ddim yn digwydd mewn modd amserol
- gorfod gweithio'n galed i eirioli dros eu plentyn a theimlo na wrandawyd arnynt bob amser
- anghenion eu plentyn ddim yn cael eu diwallu, gan gynnwys pryderon am eu lles
- nid yw ysgol eu plentyn yn ddigon cynhwysol
- cefnogaeth gyfyngedig i ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd o'i chymharu â'r gefnogaeth a ddarperir mewn ysgolion cynradd, gyda rhieni yn disgrifio heriau gan gynnwys llai o ddarpariaeth neu gymorth a dealltwriaeth anghyson staff ar draws ysgolion mwy

Soniodd rhieni a oedd yn anghytuno bod y cymorth a ddarperir gan ysgol neu ddarparwr addysg eu plentyn yn diwallu eu hanghenion am bwyntiau oedd yn ymwneud â'r thema hon yn amlach na'r rhai a gytunodd.

### Barn gadarnhaol ar CADYau a staff eraill yr ysgol

Adroddodd rhai rhieni brofiadau cadarnhaol o'u hymgysylltu gyda CADY eu plentyn a staff eraill yn eu hysgol. Roedd gan y rhieni hyn farn gadarnhaol ar ystod o ddarpariaeth a chymorth a oedd wedi'u rhoi ar waith yn ysgol eu plentyn, gan ddarparu enghreifftiau fel darpariaeth grŵp bach, grwpiau meithrin a chymorth a ddarperir mewn uned arbenigol neu gyfleuster addysgu arbenigol. Roedd nifer o rieni yn teimlo bod y CADY a staff eraill yn ysgol eu plentyn yn gweithio'n effeithiol, weithiau gyda diffyg adnoddau a chapasiti ar gael iddynt, i ddiwallu anghenion eu plentyn. Canmolodd y rhieni hyn ymdrechion CADYau a staff eraill yn ysgol eu plentyn yn:

- cydnabod ADY eu plentyn
- cefnogi eu plentyn i ymdopi â'r amgylchedd dysgu yn yr ysgol
- eu cefnogi fel rhieni i ddeall anghenion eu plentyn
- darparu neu oruchwylio cymorth un-i-un
- gwneud addasiadau rhesymol i'r ddarpariaeth

Soniodd rhieni a oedd yn cytuno bod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu yn eu haddysg am bwyntiau oedd yn ymwneud â'r thema hon yn amlach na'r rhai a oedd yn anghytuno.

### Adnabod ADY


Cododd rhai rhieni bryderon am y broses o adnabod ADY eu plentyn. Roedd hyn yn cynnwys rhieni oedd:

- yn anghytuno â phenderfyniadau gan ysgol a/neu awdurdod lleol eu plentyn nad oedd gan eu plentyn ADY
- yn teimlo bod y broses o adnabod anghenion eu plentyn wedi cymryd (neu yn cymryd) rhy hir

## Barn ar y gefnogaeth a ddarperir (ar draws sawl lleoliad)

Gofynnwyd i rieni a ddywedodd bod eu plentyn wedi derbyn eu haddysg mewn mwy nag un ysgol / lleoliad addysgol (gan gynnwys rhieni plant gyda a heb CDUau) i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y cymorth a ddarperir gan holl ddarparwyr addysg eu plentyn yn diwallu eu hanghenion.

**Ffigur 9. I ba raddau y mae'r cymorth a ddarperir gan bob lleoliad yn diwallu anghenion eu plentyn**




N=87

Mae Ffigur 9 yn dangos:

- o'r 87 o ymatebion a ddywedodd bod eu plentyn wedi derbyn eu haddysg mewn mwy nag un ysgol / lleoliad addysgol, roedd 49 allan o 87 o ymatebion (56%) yn

"anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" bod y gefnogaeth a ddarperir gan holl ysgolion neu ddarparwyr addysg eu plentyn yn diwallu eu hanghenion

- nifer is o ymatebion (26 allan o 87, 30%) yn “cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" â'r datganiad hwn

**Barn ar y gefnogaeth a ddarperir (ar draws sawl lleoliad) – sylwadau testun agored**

Gwahoddwyd rhieni i ddarparu gwybodaeth ychwanegol, os dymunant, mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, trwy flwch sylwadau testun agored. Cafwyd nifer cyfyngedig o ymatebion (18) i'r cwestiwn hwn.


Roedd y rhai a roddodd ymateb ysgrifenedig yn fwy tebygol o fod wedi anghytuno bod y gefnogaeth a ddarperir gan ysgolion neu ddarparwyr addysg eu plentyn yn diwallu eu hanghenion. Cyfeiriodd y rhieni hyn at ddarpariaeth addysgol eu plentyn yn annigonol a/neu amgylchedd yr ysgol yn amhriodol i ddiwallu eu hanghenion. Dywedodd nifer fach o rieni eu bod wedi ategu eu haddysg gyda darpariaeth breifat (e.e. tiwtoriaid).

## Gwybodaeth a chanllawiau

### Ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau

Fe ofynnon ni i rieni ynglŷn â ble roedden nhw wedi cael gafael ar wybodaeth a chanllawiau mewn perthynas â'r system ADY.

**Ffigur 10. Ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau ynghylch ADY a'r system ADY**




N=1448. Nodyn: gallai rhieni fod wedi ticio mwy nag un opsiwn ymateb, ac felly efallai nad yw cyfanswm yr ymatebion yn cyfateb i 100%.

Mae Ffigur 10 yn dangos bod rhieni fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cael gafael ar wybodaeth a chanllawiau mewn perthynas ag ADY a'r system ADY gan ddarparwr ysgol/addysg eu plentyn

### Ffynonellau eraill o wybodaeth a chanllawiau - sylwadau testun agored

Gofynnwyd i rieni a ddewisodd "Sefydliad arall" i nodi'r ffynhonnell. Roedd 444 o ymatebion testun agored ar gyfer y cwestiwn hwn.

Manylir ar y ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau yr adroddodd rhieni'n yn fwyaf aml eu bod yn cyrchu isod:


- gwasanaethau neu sefydliadau cymorth ac eiriolaeth, gan gynnwys elusennau, fel Snap Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS), Barnardo's, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS), Stand, InclusAbility, Sunshine Support, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)
- gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gan gynnwys Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn, Llwybrau Teulu, Tîm o amgylch y teulu a gwasanaethau cymorth mabwysiadu
- gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys meddygon teulu, ymarferwyr iaith a lleferydd, tîm niwroddatblygiad, tîm therapi galwedigaethol plant, ymwelydd iechyd, pediatregydd, seicotherapydd, seicolegydd clinigol

- ar-lein trwy chwiliadau Google, cyrchu gwefannau fel Llywodraeth Cymru a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook
- cymorth i rieni gan gymheiriaid, gan gynnwys fforymau rhieni, grwpiau cymorth a ffrindiau â phlant ag ADY
- gwybodaeth broffesiynol o waith rhieni neu addysg/hyfforddiant ffurfiol e.e. gradd Meistr mewn pwnc oedd yn gysylltiedig ag ADY

### Eglurder gwybodaeth

Fe ofynnon ni hefyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y wybodaeth yr oeddent wedi'i chael hi'n glir ac yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY.

**Ffigur 11. I ba raddau yr oedd y wybodaeth yn glir ac yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY**




N=1531

Mae Ffigur 11 yn dangos bod

- 34% o'r ymatebion yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y wybodaeth yn glir ac yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY
- 32% yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" bod y wybodaeth yn glir ac yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY
- 34% "ddim yn cytuno nac yn anghytuno"

### Eglurder gwybodaeth – sylwadau testun agored

Gofynnwyd i rieni a oedd yn anghytuno bod y wybodaeth yr oeddent wedi'i chyrchu yn glir ac yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY ddarparu rhagor o fanylion mewn perthynas â'u hymateb. Roedd 433 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr. Nodwyd ystod eang o themâu mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ac ni chodwyd un thema gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Dylid nodi, felly, fod pob un o'r themâu a grynhoir isod wedi'u nodi gan leiafrif neu leiafrif bychan o'r 433 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

### Diffyg gwybodaeth na chefnogaeth

Cyfeiriodd nifer o rieni at ddiffyg gwybodaeth neu gymorth a ddarparwyd iddynt i'w galluogi i ddeall y system ADY. Adroddodd y rhieni hyn:

- roedden nhw wedi derbyn ychydig neu ddim gwybodaeth am y system ADY
- roedd y wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt wedi bod yn gyfyngedig ac nid oedd yn ddigon manwl i gefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY
- roedd diffyg gwybodaeth wedi arwain at y rhieni hyn yn teimlo nad oeddent yn deall elfennau o'r system ADY, gan gynnwys:
    - prosesau
    - amserlenni
    - cymorth ar gael
    - dyletswyddau a/neu gyfrifoldebau statudol darparwyr addysg, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol

### Gwybodaeth aneglur

Dywedodd rhai rhieni nad oedd eglurder i'r wybodaeth yr oeddent wedi'i chyrchu neu ei derbyn (e.e. y Cod ADY, gwybodaeth a ddarparwyd gan eu darparwr addysg neu awdurdod lleol). Roedd y rhieni hyn yn teimlo bod diffyg gwybodaeth glir wedi cyfrannu at ddiffyg dealltwriaeth o'r system ADY, gan nodi bod y wybodaeth:

- nid oedd yn gyfeillgar i'r defnyddiwr neu'n rhy gymhleth, er enghraifft gan gynnwys jargon neu acronymau, neu nad oedd yn ddigon cryno
- yn rhy generig, yn agored i'w ddehongli ac nid oedd yn ddigon penodol i fod yn ddefnyddiol

### Mynediad at wybodaeth

Dywedodd rhai rhieni nad oeddent yn gallu cael digon o wybodaeth i gefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY. Soniodd y rhieni hyn:

- ddim yn gwybod o ble i gael gwybodaeth, gan gynnwys pwy i ofyn a pha ffynonellau gwybodaeth a allai fod ar gael iddynt
- diffyg cyfeirio at wybodaeth gan ddarparwyr addysg, awdurdodau lleol ac eraill sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY
- eu bod yn dibynnu ar sefydliadau eraill am gymorth (e.e. Snap Cymru, Cymdeithas Dyslecsia) neu ar gymorth gan rieni ar lafar neu fforymau rhieni
- roedd diffyg gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd wedi arwain rhieni i ymgymryd â'u hymchwil annibynnol eu hunain i gefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY

### Gwybodaeth wrthgyferbyniol neu gamarweiniol

Roedd rhai rhieni yn teimlo bod gwybodaeth yr oeddent wedi'i cyrchu neu ei derbyn yn cynnwys gwybodaeth neu gyngor gwrthgyferbyniol neu gamarweiniol a oedd yn rhwystro eu dealltwriaeth o'r system ADY. Cyfeiriodd y rhieni hyn at amrywiol ffynonellau a oedd yn teimlo eu bod yn cynnwys gwybodaeth wrthgyferbyniol neu gamarweiniol (gan ddyfynnu'r Cod ADY, gwybodaeth gan ysgolion neu awdurdodau lleol). Roedd sylwadau'r rhieni hyn yn tueddu i ymwneud â sefyllfaoedd lle roedd rhieni yn teimlo bod gan eu plentyn ADY, ond nid

oeddent wedi derbyn CDU gyda rhieni yn adrodd eu bod wedi cael gafael ar wybodaeth sydd:

- roedden nhw'n teimlo eu bod yn gwrth-ddweud gwybodaeth arall yr oeddent wedi cael mynediad iddi
- canfuwyd iddynt wedyn fod yn gamarweiniol neu'n anghywir
- nid oedd yn cyd-fynd ag arferion awdurdodau lleol a darparwyr addysg

### Cyfathrebu gwael

Roedd rhai rhieni yn teimlo eu bod wedi derbyn cyfathrebu gwael gan ddarparwyr addysg, awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill (e.e. ymarferwyr iechyd) mewn perthynas â phrosesau, amserlenni a chymorth sydd ar gael a oedd wedi rhwystro eu dealltwriaeth o'r system ADY. Adroddodd y rhieni hyn:

- derbyn cyswllt cyfyngedig, neu ddim cyswllt, gan ysgol eu plentyn oedd yn ymwneud ag ADY eu plentyn. Roedd hyn wedi arwain rhai rhieni i deimlo'n anhysbys am systemau a phrosesau i gefnogi eu plentyn
- derbyn ymateb annigonol i geisiadau am wybodaeth gan ddarparwyr addysg ac awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys derbyn unrhyw ymateb neu ymateb nad oedd yn fanwl nac eglurder
- oedi wrth dderbyn gwybodaeth

### Cymhlethdod y system ADY

Roedd rhai rhieni o'r farn bod y system ADY yn rhy gymhleth ac yn anodd ei ddeall. Roedd y rhieni hyn yn teimlo y gallai'r system ADY fod yn ddryslyd, gan gyfeirio at anghysondebau canfyddedig mewn gwybodaeth a dderbyniwyd o wahanol ffynonellau (e.e. darparwyr) a greodd heriau wrth ddysgu am y system ADY a'i phrosesau.


### Materion cyffredinol gyda'r system ADY

Cyfeiriodd rhai rhieni at bryderon cyffredinol am y system ADY, nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r wybodaeth sydd ar gael. Mae'r materion hyn yn tueddu i ymwneud â'r rhieni hyn yn teimlo nad oedd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu, a oedd wedi arwain at effaith negyddol ar les eu plentyn neu eu cynnydd addysgol.

### Gofynion cymorth pellach

Fe ofynnon ni i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod angen rhagor o wybodaeth, cyngor a chanllawiau arnynt mewn perthynas â'r system ADY

**Ffigur 12. I ba raddau y mae angen rhagor o wybodaeth/cyngor/canllawiau ar rieni**





N=1606

Mae Ffigur 12 yn dangos bod dros hanner yr ymatebion (69%) naill ai'n "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod angen rhagor o wybodaeth, cyngor a chanllawiau arnynt mewn perthynas â'r system ADY"

Gofynnwyd cwestiwn pellach i rieni a ddywedodd fod angen rhagor o wybodaeth/cyngor/canllawiau arnynt mewn perthynas â'r system ADY am y math o wybodaeth/cyngor/canllawiau yr oedd ei angen arnynt.

**Ffigur 13. Angen rhagor o wybodaeth/cyngor/canllawiau**




N = 1088. Nodyn: gallai rhieni fod wedi ticio mwy nag un opsiwn ymateb, ac felly efallai nad yw cyfanswm yr ymatebion yn cyfateb i 100%.

Mae Ffigur 13 yn dangos bod rhieni yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth arnynt am ystod o bynciau. Roedd yr ymatebion fwyaf tebygol o ddweud bod angen rhagor o wybodaeth/cyngor/canllawiau arnynt mewn perthynas â sut y bydd plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu cefnogi o dan y system ADY.

### Gofynion cymorth pellach – sylwadau testun agored

Gofynnwyd i rieni a ddewisodd 'Arall (nodwch os gwelwch yn dda)' mewn ymateb i'r cwestiwn hwn nodi pa wybodaeth/cyngor/canllawiau pellach oedd ei hangen arnynt. Roedd 127 o atebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr.

### Gwybodaeth am brosesau

Roedd nifer o rieni yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth, cyngor a chanllawiau arnynt am agweddau cyffredinol a phenodol ar y system ADY. Tueddodd y rhieni hyn adrodd eu bod yn teimlo'n ansicr ynghylch elfennau craidd y system, megis amserlenni cyfreithiol a phrosesau datrys anghydfodau, yn ogystal ag agweddau mwy manwl, megis sut mae CDUau yn cyd-gysylltu â chynlluniau addysgol neu iechyd eraill ar waith ar gyfer plant.

Nododd rhieni sawl maes lle hoffent dderbyn rhagor o wybodaeth, cyngor a chanllawiau ac roedd y rhain yn cynnwys:

- enghreifftiau o arferion da o CDUau a DDdY
- dyletswyddau cyfreithiol ysgolion ac ALlau o dan y Ddeddf
- sut mae ADY a DDdY yn cael ei ddiffinio a'i nodi mewn gwahanol leoliadau addysgol
- darpariaeth ôl-16 gan gynnwys pontio a chymorth
- y meini prawf a'r broses ar gyfer sicrhau darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)
- y meini prawf a'r broses ar gyfer sicrhau lle mewn ysgol arbennig / FEI arbenigol

### Effeithiolrwydd CDU

Dywedodd rhai rhieni nad oeddent yn glir ynghylch sut roedd CDUau yn cael eu hadolygu yn barhaus i asesu a oedd DDdY yn briodol ac yn effeithiol. Dywedodd y rhieni hyn nad oeddent yn deall pwy oedd â rôl i asesu a oedd y DDdY a ddarparwyd yn effeithiol ac yn arwain at ganlyniadau gwell i'w plentyn. Roedd rhai o'r rhieni hyn hefyd yn cwestiynu effeithiolrwydd prosesau i godi unrhyw bryderon oedd ganddynt, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle roedd anghytundebau ynghylch a oedd CDU eu plentyn yn diwallu eu hanghenion.

### Hygyrchedd gwybodaeth

Nododd rhai rhieni eu bod yn gweld agweddau o'r system yn gymhleth i'w deall, gan gynnwys yr iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol a hefyd o fewn dogfennaeth swyddogol, gan gynnwys mewn CDUau. Nododd rhai o'r rhieni hyn fod y rhai sydd eisoes yn gyfarwydd â'r system ADY, trwy rolau proffesiynol er enghraifft, mewn sefyllfa well na rhieni eraill i ddeall cymhlethdodau'r system a'r iaith a ddefnyddir, gan nodi pryderon am annhegwch ymhlith rhieni wrth ymgysylltu â'r system a'i ddeall.

Dywedodd rhai rhieni eu bod yn troi at rieni plant ag ADY eraill am gymorth yn hytrach nag ymarferwyr. Nododd rhieni bod hyn oherwydd nad yw ysgolion yn darparu gwybodaeth am y

system ADY, neu oherwydd bod ymarferwyr yn defnyddio terminoleg gymhleth a byrfoddau yn eu cyfathrebiadau neu mewn dogfennau (fel y CDU). Roedd nifer fach o rieni yn teimlo y byddai pwynt canolog ar gyfer gwybodaeth am y system ADY yn ddefnyddiol a nodwyd bod angen fformatau hygyrch, megis fersiynau hawdd eu darllen o ddogfennau, er mwyn sicrhau bod rhieni yn gallu cael gwell gafael ar wybodaeth a fyddai'n eu cynorthwyo.


**Gwasanaethau cymorth**

Cyfeiriodd rhai rhieni at yr angen am well gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael a sut i gael mynediad at wasanaethau cymorth. Mewn rhai achosion, cyfeiriodd rhieni at beidio â gwybod ble i droi am gymorth pan nad yw'r ddarpariaeth sydd wedi'i rhoi ar waith yn diwallu anghenion eu plentyn. Mewn achosion eraill, cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen am fynediad at gymorth eiriolaeth annibynnol mewn sefyllfaoedd lle mae anghytundebau ac anghydfodau yn codi.

## Adnabod ADY

Gofynnwyd i rieni a ddywedodd bod gan eu plentyn CDU i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau oedd yn ymwneud ag adnabod ADY eu plentyn.

**Ffigur 14. Ymatebion rhieni i ddatganiadau oedd yn ymwneud ag adnabod ADY**




N=935 i 938

Mae Ffigur 14 yn dangos bod:

- dros hanner yr ymatebion (56%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn prosesau i adnabod ADY eu plentyn. Dywedodd dros hanner hefyd y gwrandawyd ar eu barn yn ystod y broses
- rhieni wedi mynegi barn llai cadarnhaol ar adnabod ADY eu plentyn mewn modd amserol; roedd tua hanner yr ymatebion (49%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" bod ADY eu plentyn wedi'u nodi mewn modd amserol

### Barn ar adnabod ADY (datganiadau oedd yn ymwneud â chyfranogiad rhieni) – sylwadau testun agored

Gwahoddwyd rhieni i ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r ddau ddatganiad cyntaf yn Ffigur 14, sef:

- Cefais fy nghefnogi i gymryd rhan mewn prosesau i adnabod ADY fy mhlentyn
- Gwrandawyd ar fy safbwyntiau yn ystod y broses o adnabod ADY fy mhlentyn

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf ar draws y 313 o ymatebion a dderbyniwyd. Roedd rhieni a oedd wedi anghytuno â'r datganiadau hyn yn sylweddol fwy tebygol o fod wedi darparu sylwadau ysgrifenedig na'r rhai a oedd wedi cytuno. Adlewyrchir hyn yn y themâu a nodir isod.

#### Rhieni yn teimlo na wrandawyd arnynt

Dywedodd nifer o rieni nad oeddent yn teimlo y gwrandawyd ar eu barn yn ystod y broses o adnabod ADY eu plentyn. Dywedodd y rhieni hyn nad oedd eu barn bob amser yn cael ei chymryd o ddifrif gan ysgolion ac awdurdodau lleol, gyda rhai rhieni yn teimlo bod eu barn yn cael ei hanwybyddu neu ei bychanu. Mewn rhai achosion, cynigiodd y rhieni enghreifftiau lle nad oedd eu barn yn cael ei chymryd o ddifrif nes iddynt roi eu pryderon yn ysgrifenedig, nodi anghytundeb neu gael tystiolaeth gan weithiwr proffesiynol arall a oedd yn cytuno â nhw fel rhiant (e.e. awdurdod lleol, iechyd, neu sefydliad preifat yr oeddent wedi'i gomisiynu i gynnal sgrinio neu asesiad). Nodwyd y pryderon hyn gan rieni mewn perthynas ag anghytundebau ynghylch a oedd gan eu plentyn ADY ai peidio ac mewn perthynas â'u cyfranogiad yn y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd rhai rhieni yn teimlo bod hyn wedi cyfrannu at brosesau adnabod a chynllunio oedd yn teimlo'n wrthwynebus o'u persbectif nhw.

#### Oedi wrth asesu anghenion a gwneud penderfyniadau

Cyfeiriodd rhai rhieni at oedi yn y broses o asesu anghenion eu plentyn ac wrth benderfynu a oedd gan eu plentyn ADY ai peidio. Mewn rhai achosion, roedd rhieni'n teimlo bod ysgol eu plentyn a/neu eu hawdurdod lleol wedi bod yn amharod neu'n anfodlon cyfeirio eu plentyn i gael ei asesu, gan nodi bod hyn wedi achosi wedyn yn y broses o baratoi CDU a rhoi darpariaeth addas ar waith. Roedd rhieni eraill yn teimlo nad oedd ysgol eu plentyn wedi bod yn rhagweithiol wrth adnabod eu hanghenion a bod rhieni yn aml yn gorfod ysgogi trafodaethau ynghylch adnabod ac asesu anghenion.

#### Pryderon am ddulliau ysgolion ac awdurdodau lleol o adnabod ADY

Cododd rhai rhieni bryderon cyffredinol am ddulliau ysgolion ac awdurdodau lleol o adnabod ADY eu plentyn. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch pa mor ymatebol oedd ysgol eu plentyn wrth adnabod ADY yn ogystal â phryderon am ysgolion a/neu awdurdodau lleol nad oeddent yn cymryd eu barn fel rhiant o ddifrif. Adroddwyd am ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ADY ymhlith ymarferwyr gan rai ymatebwyr, gyda'r rhieni hyn yn cyfeirio at enghreifftiau o anghenion neu ymddygiadau penodol nad oeddent yn teimlo bod yr ymarferwyr yn eu deall (e.e. dysgwyr oedd yn gallu 'cuddio' ADHD). Dywedodd nifer fach o

rieni fod eu plentyn wedi gorfod symud ysgol neu gael addysg gartref oherwydd effaith hyn ar eu lles. Cododd rhieni eraill bryderon tebyg am awdurdodau lleol, gan nodi y gallai eu dull fod yn wrthwynebus.

### Cefnogaeth a chyfathrebu da

Cyfeiriodd rhai rhieni at enghreifftiau o'u plentyn yn cael ei gefnogi'n dda gan yr ysgol, gan ddarparwr blynyddoedd cynnar a/neu eu hawdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau o ysgolion, darparwyr blynyddoedd cynnar a gweithwyr proffesiynol eraill oedd yn:

- adnabod anghenion posibl a hysbysu rhieni am hyn
- bod yn ymatebol pan nodwyd pryderon gan rieni
- cefnogi rhieni a'u plentyn i ddeall anghenion eu plentyn a'r broses ar gyfer adnabod ADY
- cyfathrebu'n effeithiol yn ystod y broses o adnabod ADY

### Anghysondeb

Cyfeiriodd rhai rhieni at anghysondebau mewn dulliau o adnabod, cynllunio a darparu mewn gwahanol ysgolion yr oedd eu plentyn wedi mynychu. Roedd y rhain yn cynnwys rhieni a oedd yn teimlo bod ysgol gynradd eu plentyn wedi bod yn fwy effeithiol na'u hysgol uwchradd, ac i'r gwrthwyneb. Adroddodd nifer fach o rieni y mae eu plant wedi symud i ysgol arbennig neu a oedd bellach yn derbyn cymorth mewn uned arbenigol, hefyd anghysondeb yn lefel dealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer anghenion eu plentyn.

Adroddwyd hefyd am anghysondeb yn y dulliau a gymerwyd gan staff o fewn yr un ysgol, gyda'r rhieni hyn yn adrodd bod rhai athrawon a/neu eu CADY yn fwy parod i wrando ar eu pryderon nag eraill a'u bod wedi derbyn negeseuon gwahanol gan staff gwahanol.

### Materion eraill

Adroddodd rhai rhieni ystod o faterion eraill, er enghraifft:

- bod eu plentyn yn derbyn darpariaeth neu gymorth a oedd yn amhriodol neu'n annigonol
- bod diffyg capasiti, darpariaeth a/neu adnoddau
- diffyg eglurder, neu ddiffyg cysondeb mewn gwybodaeth a chyngor yr oeddent wedi dderbyn, gyda rhai rhieni yn adrodd eu bod wedi cael gwybodaeth anghywir am anghenion eu plentyn, am y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a/neu am ddarpariaeth

### Adnabod ADY (datganiadau oedd yn ymwneud â chyfranogiad plentyn mewn prosesau ac adnabod amserol) – ymatebion testun agored

Rhoddwyd cyfle i rieni hefyd roi sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r tri datganiad canlynol:

- Cefnogwyd fy mhlentyn i gymryd rhan yn briodol mewn prosesau i adnabod eu ADY
- Gwrandawyd ar farn fy mhlentyn yn ystod y broses o adnabod eu ADY
- Cafodd ADY fy mhlentyn eu hadbabod mewn modd amserol

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf ar draws y 305 o ymatebion a dderbyniwyd. Roedd y rhan fwyaf o sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â'r trydydd datganiad a restrir uchod, gan ganolbwyntio ar gafodd ADY eu hadnabod mewn ffordd amserol.

Roedd rhieni a oedd yn anghytuno â'r datganiadau uchod yn fwy tebygol o fod wedi darparu sylwadau ysgrifenedig na'r rhai a gytunodd. Adlewyrchir hyn yn y themâu a nodir isod.

#### Oedi wrth adnabod ADY eu plentyn

Cyfeiriodd nifer o rieni at oedi wrth adnabod ADY eu plentyn, gan fynegi rhwystredigaeth am yr amseroedd aros. Cyfeiriodd y rhieni hyn at orfod aros am asesiadau oedd yn ymwneud â phlant ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig neu ADHD. Mewn rhai achosion, adroddodd rhieni fod y broses o gael diagnosis i'w plentyn wedi cymryd sawl blwyddyn, gan nodi'r trafferthion yr oeddent wedi'u hwynebu wrth geisio cael mynediad at arbenigwyr. Priodolodd rhai rhieni yr oedi i fethiant gan ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau i nodi, neu yn wir i gydnabod, yr angen am gymorth ychwanegol.

#### Effaith oedi ar ddatblygiad plant a lles teuluoedd

Pwysleisiodd rhai rhieni effaith negyddol oedi wrth adnabod ADY ar ddatblygiad a chynnydd plant yn yr ysgol. Ymhlith y rhain, nododd rhieni plant iau nad oedd plant yn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol neu'n gwneud cynnydd araf yn eu dysgu. Adroddodd rhieni eraill fod oedi wrth adnabod neu fethiant i adnabod ADY yn gyfan gwbl yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd meddwl a lles plant, gan gyfrannu at broblemau emosiynol. Mewn rhai achosion, disgrifiodd rhieni effaith oedi ar les ehangach y teulu.

#### Trafferthion a brofwyd gan rieni yn ystod y broses o adnabod ADY

Fe wnaeth rhai rhieni sylwadau ar y 'frwydr' yr oeddent wedi wynebu er mwyn sicrhau bod ADY eu plentyn yn cael ei nodi. Dywedodd y rhieni hyn eu bod yn gorfod rhoi pwysau ar ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid iechyd i gael anghenion eu plentyn wedi'u nodi. Mewn rhai achosion, cwestiynodd rhieni a fyddai ADY eu plentyn wedi cael ei nodi oni bai eu bod nhw wedi pwyso, cymryd camau neu bwrw ymlaen eu hunain. Dywedodd rhai o'r rhieni hyn eu bod ond wedi gallu llywio'r system a sicrhau cefnogaeth briodol i'w plentyn oherwydd eu gwybodaeth am brosesau a sefydliadau.

### Cymorth allanol y mae rhieni yn ei gael

Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi cael mynediad at gymorth allanol i'w cefnogi yn ystod y broses o geisio cael ADY eu plentyn wedi'i nodi. Ymhlith y rhieni hyn, roedd hyn yn gyffredin yn cynnwys talu am asesiad preifat, gydag enghreifftiau o rieni yn talu am asesiadau Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, ADHD a dyslecsia. Dywedodd rhai rhieni eu bod yn talu i gael mynediad at wasanaethau therapi a chymorth gan asiantaethau allanol.

### Barn gadarnhaol ar y broses adnabod

Mewn rhai achosion, adroddodd rhieni farn gadarnhaol ar y broses o adnabod ADY eu plentyn. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hyn yn aml at y gefnogaeth werthfawr a ddarperir gan CADYau profiadol, ymarferwyr gofal plant a/neu swyddogion awdurdodau lleol. Roedd y rhieni hyn hefyd yn aml yn cydnabod eu bod yn 'ffodus' bod anghenion eu plentyn wedi'u nodi'n gynnar.

### Rhwystredigaeth oedd yn gysylltiedig â theimlo nad oedd barn eu plentyn yn cael eu glywed

Wrth gyfeirio at yr ail ddatganiad, mewn rhai achosion, mynegodd rhieni rwystredigaeth na wrandawyd ar farn eu plentyn yn ystod y broses o adnabod eu ADY. Dywedodd y rhieni hyn fod eu plant yn cael eu hystyried fel rhai sydd â 'phroblemau ymddygiad' neu fel rhai 'trafferthus' ac nad oedd eu barn yn cael ei gymryd o ddifrif. Roedd rhai rhieni yn teimlo bod barn eu plentyn yn cael eu diystyru neu nad oedd eu plentyn yn cael cyfle i gynnig eu barn.

### Cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau


Wrth gyfeirio at y datganiad cyntaf, adroddodd rhai rhieni nad oedd eu plentyn yn cael digon o gyfle i gymryd rhan mewn prosesau neu drafodaethau i adnabod eu ADY. Mewn rhai achosion, adroddodd rhieni nad oedd eu plentyn yn rhan o gyfarfodydd i drafod eu ADY. Mewn achosion eraill, roedd problemau cyfathrebu neu ffactorau eraill yn golygu nad oedd yn bosibl i blant gymryd rhan.

Nododd nifer fach o rieni fod eu plentyn wedi bod yn rhan o'r broses a bod eu barn wedi'u hymgorffori a'u hadlewyrchu yn eu CDU.

## Cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Gofynnwyd i rieni, lle roedd gan eu plentyn CDU, i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â'r cyfarfodydd a gynhaliwyd i baratoi CDU eu plentyn. Efallai y gallai'r cyfarfodydd hyn fod wedi cael eu galw'n gyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu gyfarfod CDU.

**Ffigur 15. Ymatebion rhieni i ddatganiadau sy'n ymwneud â'r cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**




N = 937 i 938

Mae Ffigur 15 yn dangos bod dros hanner yr ymatebion naill ai'n "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" ac,

- roedd yn amlwg iddynt beth fyddai'r camau nesaf ar ôl y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- bod pwrpas y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i esbonio'n dda iddynt ymlaen llaw
- eu bod yn fodlon â'r amser a gymerodd i gyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu plentyn gael ei drefnu

### Sylwadau testun agored – cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Gwahoddwyd rhieni i roi gwybodaeth ychwanegol am eu profiad o'r cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf ar draws y 192 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhai a roddodd ymateb yn fwy tebygol o fod wedi anghytuno:

- eu bod yn fodlon â'r amser a gymerodd i gyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu plentyn gael ei drefnu
- bod y camau nesaf ar ôl y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn glir

Nododd rhieni a ddarparodd wybodaeth ychwanegol amryw o safbwyntiau cadarnhaol a negyddol, yn ymwneud â'r datganiad "Eglurwyd pwrpas y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i mi ymlaen llaw."

### Y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Roedd nifer o rieni yn nodi nad oedd y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bob amser yn cael ei gynnal mewn ffordd oedd yn gyson â dull ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dywedodd y rhieni hyn fod y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi bod yn anodd oherwydd nad oeddent yn teimlo y gwrandawyd arnynt yn y cyfarfod ac y gallai targedau a nodwyd yn ystod cyfarfodydd fod yn aneglur, gan arwain at ddiffyg cefnogaeth ymarferol ac effeithiol i'w plentyn. Adroddwyd hefyd, pan amlinellwyd targedau clir yn ystod y cyfarfodydd hyn, nad oeddent bob amser yn cael eu cyflawni yn ymarferol oherwydd cyfyngiadau adnoddau a chyllid ar ddarparwyr addysg.

Tynnodd rhai rhieni sylw at anghytundebau gydag athrawon a CADYau yn ystod cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn am yr ADY a'r DDdY, gyda rhai rhieni yn gwneud diwygiadau i CDUau drafft i adlewyrchu'n well yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn fwy addas. Mynegodd rhai rhieni anfodlonrwydd ar ôl y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hefyd, gan nodi diffyg cyswllt a dilyniant a arweiniodd at deimlo nad oedd ymarferwyr yn ymwneud yn llawn â'r broses.

Adroddodd rhieni eraill brofiadau cadarnhaol o gyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan dynnu sylw at ymarferwyr a chyfarfodydd wedi'u paratoi'n dda lle roeddent yn teimlo y gwrandawyd arnynt. Nododd y rhieni hyn sut roedd y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn eu galluogi i gael gwybod am anghenion eu plentyn a'r gefnogaeth a oedd yn cael ei gynllunio ar eu cyfer. Tynnodd y rhieni hyn sylw ymhellach at y ffaith bod yr agwedd gydweithredol o gyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gydag ymgysylltu aml-sector cyn neu yn ystod cyfarfodydd, yn cael ei chroesawu a'u bod o'r farn ei bod yn fuddiol i sicrhau bod cymorth effeithiol ar waith i'w plentyn.

### Cyfathrebu â rhieni

Mynegodd rhai rhieni anfodlonrwydd gyda'r lefel o gyfathrebu a gawsant gan ddarparwyr addysg neu'r awdurdod lleol ynglŷn â'r broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am y cyfarfodydd yn ogystal â'r amserlenni cysylltiedig ar ôl y cyfarfod. Nododd y rhieni hyn sut nad oeddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl cyn y cyfarfod, a sut yr oeddent hefyd wedi derbyn lefelau gwael o gyfathrebu ar ôl i'r cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gael ei gynnal.

Roedd rhai rhieni yn teimlo bod angen iddynt chwilio am wybodaeth eu hunain, megis trwy rieni eraill o blant ag ADY, i gael deall y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu plentyn. Dywedodd eraill nad oeddent wedi mynychu'r cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, heb sylweddoli beth oedd e, neu heb fawr o ddealltwriaeth o

beth oedd y cyfarfod. Roedd hyn yn cynnwys rheini a ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol o beth fyddai'r camau nesaf yn y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel yr amserlenni sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r CDU.

I'r gwrthwyneb, mewn rhai achosion, mynegodd rhieni farn fwy cadarnhaol ynglŷn â'r cyfathrebu a gawsant ynghylch y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dywedodd y rhieni hyn eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, eu bod nhw wedi cael eu hysbysu am y camau nesaf a derbyn dogfennaeth ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod a hynny mewn modd amserol.

#### Oedi yn y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi profi oedi yn y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a oedd weithiau yn oedi sylweddol o ran hyd a thu hwnt i'r amserlenni a ganiateir. Roedd yr oedi a adroddwyd yn amrywiol eu natur, ac yn cynnwys y canlynol:


- amser a gymerodd i gyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu plentyn gael ei drefnu
- oedi wrth gynnal cyfarfodydd adolygu
- CDUau drafft yn cael eu gohirio ar ôl cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a effeithiodd wedyn ar ddrafftio a chymeradwyo CDUau, yn ogystal ag effeithio ar DDdY

Adroddwyd hefyd bod oedi yn y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael effaith ar brosesau pontio (rhwng lleoliadau addysgol, yn enwedig o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, yn ogystal â throsglwyddo o leoliadau prif ffrwd i AHY. Tynnodd y rhieni hyn sylw at sut y gallai effaith oedi yn y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn achosi problem gyda sicrhau bod y gefnogaeth gywir ar waith ar ôl pontio.

## Paratoi CDU

Gofynnwyd i rieni y mae gan eu plentyn CDU, i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â 'r broses o baratoi'r CDU.

**Ffigur 16. Ymatebion rhieni i ddatganiadau sy'n ymwneud â'r broses o baratoi'r CDU**




N = 937 i 938

Mae Ffigur 16 yn dangos bod:

- Mwyafrif yr ymatebion (70%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" y gwrandawyd arnynt yn ystod y broses o baratoi'r CDU
- Dros hanner y rhieni (55%) hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn fodlon â'r amser a gymerodd i CDU eu plentyn fod yn barod
- Tua hanner (53%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn fodlon bod holl ADY eu plentyn wedi'u nodi a'u disgrifio'n gywir yn y CDU
- Gan y rhieni farn llai cadarnhaol ar i ba raddau y gwrandawyd ar farn eu plentyn yn ystod y broses o baratoi'r CDU. Roedd llai na hanner yr ymatebion (44%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" â'r datganiad hwn. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod 18% o'r ymatebion wedi dewis "ddim yn berthnasol" ar gyfer y datganiad hwn. Roedd y gyfran a oedd yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn hefyd yn fach (18%)

### Proses CDU – sylwadau testun agored

Gwahoddwyd rhieni i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am broses CDU eu plentyn, yn dilyn y datganiadau a nodir yn Ffigur 16. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd

amlaf ar draws y 222 o ymatebion a dderbyniwyd. Derbyniwyd cyfran uwch o sylwadau ysgrifenedig gan rieni a oedd wedi anghytuno â'r datganiadau uchod nag gan rieni a oedd wedi cytuno. Adlewyrchir hyn yn y themâu a nodir isod.

### Ansawdd CDU a chefnogaeth DDdY

Dywedodd nifer o rieni eu bod yn pryderu am ansawdd CDU eu plentyn. Adroddodd y rhieni hyn nad oedd digon o fanylion yn CDU eu plentyn ac nad oedd amcanion DDdY bob amser wedi'u nodi'n glir neu eu bod yn amhriodol. Ymhlith yr ymatebion hyn, nodwyd hefyd sut roedd targedau o fewn y CDUau weithiau yn afrealistig neu heb fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac nad oedd y DDdY bob amser yn cael ei gyflawni'n llawn, neu ei fod yn annigonol i ddiwallu anghenion eu plentyn.

Roedd rhai rhieni o’r farn, er bod gan eu plentyn CDU ar waith, nad oeddent yn teimlo bod y gefnogaeth yn eu helpu. Ymhlith y pwyntiau a nodwyd gan y rhieni hyn oedd bod ymarferwyr ddim bob amser yn ymwybodol o gynnwys CDUau a'r DDdY oedd yn ofynnol i gefnogi rhai plant, gan arwain at anghenion nad oeddent bob amser yn cael eu diwallu.

Nododd rhai rhieni eu bod wedi cael mewnbwn i ddatblygiad y CDU yn hytrach na derbyn y CDU cychwynnol a gynhyrchwyd gan y darparwr addysg. Roedd y mewnbwn a adroddwyd gan rieni yn cynnwys cefnogi adnabod ADY ac awgrymu DDdY eu hunain neu ymgynghori ag asiantaethau allanol i nodi cefnogaeth. Nid oedd y rhieni hyn yn teimlo ei bod yn gyfrifoldeb iddynt gyfrannu i'r fath raddau, ond bod hyn yn angenrheidiol i gynhyrchu CDU o ansawdd uchel.

Roedd rhieni eraill yn fwy cadarnhaol am CDU eu plentyn. Adroddodd y rhieni hyn fod y CDU yn addas gan ei fod yn adlewyrchu'n gywir ADY ac anghenion eu plentyn, ac roedd y cymorth a ddarparwyd yn briodol. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at eu bod wedi derbyn cefnogaeth dda gan staff, gan nodi sut yr oeddent yn teimlo y gwrandawyd ar eu safbwyntiau fel rhieni. Roedd rhieni hefyd yn gwerthfawrogi perthynas dda â staff a oedd yn lletygar ac yn barod i adolygu CDUau a gwneud newidiadau yn ôl yr angen.

### Oedi gyda’r CDU

Nododd rhieni eraill oedi yn y broses ac adroddodd ei bod yn cymryd amser hir i dderbyn CDU. Y mathau mwyaf cyffredin o oedi a adroddwyd oedd cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn oedd yn cymryd cyfnodau sylweddol o amser i'w trefnu, oedi wrth gynhyrchu CDUau drafft, oedi mewn diwygiadau i CDUau drafft, a rhieni nad oedd copi o'r CDU terfynol yn cael eu darparu mewn modd amserol. Dywedodd rhai rhieni fod ganddynt brofiadau amrywiol mewn gwahanol leoliadau, gan dynnu sylw at ei bod wedi cymryd amser hir i dderbyn y ddogfen CDU mewn un lleoliad (fel cynradd) o'i gymharu ag un arall (fel uwchradd). Nid oedd y rhieni hyn bob amser yn glir pam eu bod wedi profi oedi, ond roedd rhai rhesymau a nodwyd yn cynnwys: cyfyngiadau cyllido a staffio, anghytundeb ynghylch cynnwys CDUau oedd yn arwain at oedi gyda’r cymeradwyo, aros hir am gyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu gyfarfodydd adolygu, a rhieni yn gofyn am gyfarfod CDU cychwynnol ond yn gorfod aros i hyn gael ei drefnu.

### Prosesau CDU

Dywedodd rhai rhieni eu bod yn anfodlon â phrosesau a chynllunio CDU. Barn cyffredin oedd bod cyfarfodydd yn rhy frysiog, heb ddigon o amser i drafod anghenion yn ddigonol, nodi a chytuno ar gymorth priodol. Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi cael CDU heb fod cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu unrhyw ymgynghoriad wedi digwydd ac roedd eraill yn teimlo y gwrandawyd ar eu barn yn ystod cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.


Mewn rhai achosion, dywedodd rhieni eu bod wedi cyfrannu'n sylweddol at brosesau CDU o'u hadnoddau eu hunain (fel amser neu arian) oherwydd anghytundebau â'r darparwr addysg dros anghenion neu gymorth parhaus eu plentyn. Nododd rhieni eraill eu bod wedi cymryd rhan mewn prosesau datrys anghydfodau er mwyn sicrhau CDU a oedd yn fwy priodol ac addas.

## Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDdY)

Fe ofynnon ni i rieni plant oedd â CDU, ac nad oeddent wedi nodi bod eu plentyn yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref, pwy oedd yn darparu'r DDdY a amlinellir yn CDU eu plentyn.

### Darparwyr DDdY

**Ffigur 17. Pwy oedd yn darparu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a amlinellir yn CDU eu plentyn**





N=925. Nodyn: gallai rhieni fod wedi ticio mwy nag un opsiwn ymateb, ac felly efallai nad yw cyfanswm yr ymatebion yn cyfateb i 100%. Nid yw'r siart hwn yn cynnwys ymatebion gan rieni a ddywedodd bod eu plentyn wedi'i addysgu gartref yn ddewisol.

Mae Ffigur 17 yn dangos bod rhieni fwyaf tebygol o ddweud mai ysgol/darparwr addysg yn darparu'r DDdY fel yr amlinellir yn Adran 2 o CDU eu plentyn.

### Darparwyr DDdY – addysg ddewisol yn y cartref

Fe ofynnon ni hefyd i rieni plant â CDU ac oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref pwy oedd yn darparu'r DDdY fel y'i hamlinellir yn Adran 2 o'r CDU.

**Ffigur 18. Pwy oedd yn darparu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a amlinellir yn CDU eu plentyn**





N=16. Nodyn: efallai bod rhieni wedi ticio mwy nag un opsiwn ateb.

Mae Ffigur 18 yn dangos bod rhieni a ddywedodd fod eu plentyn yn cael ei addysgu gartref yn fwy tebygol o nodi bod rhiant/gofalwr yn darparu'r DDdY (dewisodd 10 allan o'r 16 ymateb i'r cwestiwn hwn yr opsiwn hwn).

### Barn ar y DDdY a ddarperir

Fe ofynnon ni i rieni plant â CDU i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â'r DDdY a ddarparwyd i'w plentyn.

**Ffigur 19. Ymatebion rhieni i ddatganiadau sy'n ymwneud â'r DDdY a ddarparwyd i'w plentyn**




Nodyn: *Ni ofynnwyd y datganiadau hyn i rieni plant oedd yn derbyn a addysg ddewisol yn y cartref. **Gofynnwyd y datganiadau hyn i rieni plant oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref.

Mae Ffigur 19 yn dangos bod dros hanner (59%) o rieni yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn deall y DDdY a amlinellwyd yn CDU eu plentyn.

Roedd llai na hanner y rhieni "cytuno" neu "cytuno'n gryf":

- eu bod yn fodlon â'r amser a gymerodd i roi DDdY eu plentyn ar waith (43%)
- bod y DDdY a amlinellwyd yn y CDU yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu plentyn (39%)

Fe ofynnon ni hefyd i rieni plant â CDU ac oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod yr awdurdod lleol wedi esbonio DDdY eu plentyn yn glir iddynt. O'r 16 ymateb i'r cwestiwn hwn roedd:

- lleiafrif (3 allan o 16) yn "cytuno"

- dros hanner (9 allan o 16, 57%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf"
- y lleiafrif oedd yn weddill o'r ymatebion (3 allan o 16) "ddim yn cytuno nac yn anghytuno"

### Rhannu barn ar DDdY – ymatebion testun agored

Cynigiodd 270 o rieni sylwadau i ymhelaethu ar eu rhesymau dros anghytuno bod y DDdY a amlinellwyd yn CDU eu plentyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu plentyn. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr.

### Aeth DDdY i'r afael â rhai ond nid pob un o anghenion eu plentyn

Cynigiodd rhai rhieni sylwadau pellach i nodi nad oedd y DDdY a nodwyd yng nghynllun eu plentyn yn cwmpasu eu holl anghenion. Nodwyd ystod eang o bwyntiau gan y rhieni hyn, a oedd yn cynnwys y canfyddiad bod:

- y DDdY a ddarparwyd yn rhy generig a heb ei deilwra'n ddigonol i anghenion unigol
- y DDdY yn canolbwyntio ar gyflyrau penodol sy'n gysylltiedig ag iechyd ac nid oedd yn mynd i'r afael â chyflyrau ehangach sy'n effeithio ar ddysgu (e.e. Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, ADHD)
- ffocws y CDU yn rhy gul, gan arwain at ddarparu DDdY annigonol
- darpariaeth/strategaethau cyfyngedig i gefnogi anghenion iaith a chyfathrebu
- y ddarpariaeth yn gyfyngedig o ganlyniad i adnabod ADY annigonol neu anghyflawn
- anghenion synhwyraidd heb gael eu diwallu trwy DDdY
- darpariaeth gyfyngedig (gan gynnwys cymorth un-i-un annigonol) oherwydd cyllid annigonol neu brinder staffio mewn ysgolion/lleoliadau

### Pryderon a fynegwyd am ansawdd y DDdY a ddarperir

Nododd rhai rhieni hefyd fod ansawdd y DDdY a ddarperir yn wael neu bod y DDdY a ddarperir heb fod yn gyson â'r CDU. Mewn rhai achosion, cwestiynodd y rhieni effeithiolrwydd y ddarpariaeth, gan awgrymu bod y DDdY a gyflwynwyd yn rhy eang ac heb fod yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu penodol. Mynegodd rhieni eraill y farn nad oedd y DDdY yn canolbwyntio ar yr unigolyn neu nad oedd y CDU yn nodi natur y gefnogaeth, pwy fyddai'n ei ddarparu a pha mor aml y byddai'n digwydd.

Nododd ymatebwyr eraill nad oedd y DDdY a gyflwynwyd gan ysgol eu plentyn yn adlewyrchu'r darpariaethau a nodir yn y CDU. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth un-i-un yn cael ei ddarparu yn anghyson. Disgrifiwyd y ddarpariaeth gan rai rhieni fel un amhriodol, tra bod eraill yn nodi nad oedd staff yn ysgol/lleoliad eu plentyn bob amser yn ymwybodol o'r CDU a'r addasiadau sydd eu hangen i gefnogi dysgu. Yn gysylltiedig â hyn, dadleuodd rhai rhieni dros gael mwy o gefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth ar dasgau penodol, yn enwedig i gefnogi darllen ac ysgrifennu a datblygiad llythrennedd.

### Lefel y gefnogaeth / DDdY wedi'i gyfyngu gan adnoddau

Mewn nifer llai o achosion, awgrymodd rhieni mai un o'r prif resymau nad oedd DDdY yn ddigonol oedd diffyg staff neu adnoddau. Ymhlith yr ymatebion hyn, mynegodd rhieni bryder nad oedd y cymorth un-i-un oedd ei angen yn cael ei ddarparu i'w plentyn ac yn teimlo bod hyn oherwydd nad oedd gan ysgolion yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu'r gofynion mewn CDUau. Nododd rhai fod y lefel neu'r gefnogaeth a oedd ar gael o'r blaen wedi gostwng, gan arwain at anghenion nad oeddent yn cael eu diwallu.

### Materion eraill a nodwyd

Nodwyd nifer o bwyntiau eraill yn llai aml gan rieni, gan gynnwys:

- rhai rhieni yn teimlo nad oedd y DDdY oedd yn cael ei ddarparu i'w plentyn wedi'i esbonio'n llawn iddynt: nododd rhai fod cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni yn wael ac nad oedd ganddynt wybodaeth am y cymorth oedd yn cael ei ddarparu i'w plentyn
- mewn rhai achosion, nododd rhieni fod y ffaith bod eu plentyn yn parhau i gael trafferth o ran gwneud cynnydd yn eu dysgu a/neu syrthio ymhellach y tu ôl i'w cyfoedion yn dangos nad oedd y DDdY yn ddigonol
- nododd rhai rhieni fod angen diweddaru'r CDU i adlewyrchu newidiadau yn anghenion eu plentyn
- esboniodd rhieni eraill nad oedd eu plentyn bellach yn mynychu'r ysgol neu mai dim ond am gyfnod cyfyngedig o amser yr oeddent yn mynychu, gyda hyn yn aml yn cael ei briodoli i broblemau emosiynol oedd yn gysylltiedig â'u hanghenion nad oeddent yn cael eu diwallu
- nododd rhai rhieni eu bod yn ceisio darparu cymorth ychwanegol gartref i gefnogi addysg eu plentyn neu'n talu am gymorth neu ddarpariaeth ychwanegol
- atebodd rhieni eraill y cwestiwn trwy fynegi anfodlonrwydd cyffredinol gydag amserlenni/oedi oedd yn gysylltiedig â derbyn CDU a thrwy nodi nad oeddent yn teimlo eu bod nhw na'u plentyn wedi cael y gefnogaeth y dylent fod wedi ei chael

### DDdY – anghenion iaith Gymraeg

Gofynnom i rieni y mae gan eu plentyn CDU a oeddent yn teimlo yn teimlo y dylid darparu DDdY eu plentyn yn Gymraeg. O'r 932 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- Dywedodd 6% o'r ymatebion y dylai DDdY eu plentyn fod yn Gymraeg, doedd gan 34% ddim ffafriaeth a dywedodd y 60% oedd yn weddill nad oeddent yn teimlo y dylid darparu DDdY eu plentyn yn Gymraeg.
- O'r rhai a ddywedodd y dylid darparu DDdY eu plentyn yn Gymraeg:
  - Dywedodd dros hanner (56%, 33 allan o 59) fod eu plentyn yn derbyn DDdY yn llawn yn Gymraeg
  - Dywedodd lleiafrif (25%, 15 allan o 59) fod eu plentyn yn derbyn DDdY yn rhannol yn Gymraeg
  - Dywedodd y 19% oedd yn weddill (11 allan o 59) nad oedd eu plentyn yn derbyn DDdY yn Gymraeg

## Anghenion Cymraeg DDdY – sylwadau testun agored

Gwahoddwyd rhieni i ddarparu gwybodaeth ychwanegol os oeddent yn dymuno gwneud hynny a derbyniwyd 5 ymateb ysgrifenedig. Soniodd yr ymatebwyr fod eu plant yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ond bod diffyg darpariaeth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

## DDdY – anghenion iaith eraill

Fe ofynnon ni hefyd i rieni plant â CDU a oeddent yn teimlo y dylid darparu DDdY eu plentyn mewn iaith heblaw Saesneg neu Gymraeg.


O'r 926 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd lleiafrif bychan (4%) eu bod yn teimlo bod angen darparu DDdY eu plentyn mewn iaith heblaw Saesneg neu Gymraeg.

Yn dilyn y cwestiwn caeedig hwn yn gofyn i rieni a oeddent yn teimlo bod angen darparu DDdY eu plentyn mewn iaith heblaw Saesneg neu Gymraeg, gwahoddwyd rhieni i ddarparu gwybodaeth ychwanegol os oeddent yn dymuno. Roedd 28 o atebion i'r cwestiwn hwn, ond o'r rhain dim ond pedwar oedd wedi ateb "oeddwn" i'r cwestiwn caeedig. Roedd dau ymateb yn nodi anghenion yn ymwneud â Makaton ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL), tra bod y ddau ymateb arall yn arsylwadau ehangach nad oeddent yn gysylltiedig ag ieithoedd eraill. Roedd y 24 ymatebydd arall wedi ateb "nac oeddwn" i'r cwestiwn caeedig. Roedd eu sylwadau yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion sy'n ymwneud â DDdY cyfrwng Cymraeg, y cwestiwn blaenorol yn yr arolwg.

## Pontio rhwng lleoliadau addysg

Gofynnom i rieni y mae gan eu plentyn CDU a oedd eu plentyn wedi symud o un lleoliad addysg i'r llall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Ffigur 20. A oedd plentyn wedi symud o un lleoliad addysg i'r llall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**




N=895. Nodyn: efallai bod rhieni wedi ticio mwy nag un opsiwn ateb ac felly efallai na fydd cyfanswm o 100%.

Mae Ffigur 20 yn dangos bod mwyafrif yr ymatebion (75%) wedi nodi nad oedd eu plentyn wedi symud rhwng lleoliadau addysg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


O'r lleiafrif o ymatebion (27%) a ddywedodd bod eu plentyn wedi symud rhwng lleoliadau addysg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Roedd 13% wedi symud o un cyfnod i'r llall
- Roedd 11% wedi symud o un math o ysgol i'r llall
- Roedd 3% wedi symud o'r ysgol i addysg heblaw yn yr ysgol

### Profiadau o'r broses bontio

Gofynnom i rieni a ddywedodd bod eu plentyn wedi symud o un lleoliad addysg i'r llall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am eu profiadau o'r broses bontio.

**Ffigur 21. Ymatebion rhieni i gwestiynau am y broses bontio**




N = 231


Mae Ffigur 21 yn dangos bod llai na hanner yr ymatebion (44%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn cael gwybodaeth glir am sut y byddai ADY eu plentyn yn cael ei gyflawni wrth symud rhwng lleoliadau. Roedd 42% arall o'r ymatebion yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

Roedd llai na hanner yr ymatebion (44%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod ADY eu plentyn wedi'u diwallu wrth symud rhwng lleoliadau addysg. Roedd 42% arall yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

## Rheoli ADY ar draws sawl lleoliad

Gofynnom i rieni a ddywedodd bod eu plentyn wedi derbyn addysg mewn mwy nag un lleoliad i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â rheoli ADY ar draws sawl lleoliad.

**Ffigur 22. Ymatebion rhieni i ddatganiadau sy'n ymwneud â rheoli ADY ar draws sawl lleoliad**




N=53

Mae Ffigur 22 yn dangos bod llai na hanner yr ymatebion (22 allan o 53, 41%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y darparwyr wedi gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ADY eu plentyn, tra bod 18 allan o 53 (34%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

Roedd llai na hanner yr ymatebion (20 allan o 53, 37%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir gan bob darparwr ynghylch sut roedd ADY eu plentyn yn cael eu cefnogi. Roedd 18 allan o 53 o ymatebion (34%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

### Rheoli ADY ar draws sawl lleoliad – sylwadau testun agored

Gwahoddwyd rhieni i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eu hymateb i'r ddau ddatganiad caeedig a amlinellir yn Ffigur 22. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf ar draws y 23 ymateb a dderbyniwyd. Mae'n bwysig nodi bod y canfyddiadau a nodir yn yr adran hon yn seiliedig ar nifer cyfyngedig o ymatebion.

### Cymorth a dderbyniwyd gan ddarparwyr unigol

Fe wnaeth rhieni sylwadau ar y gefnogaeth yr oedden nhw/eu plentyn wedi'i dderbyn gan ddarparwyr unigol. Ymhlith yr ymatebwyr hyn, darparodd rhai rhieni:

- sylwadau cadarnhaol yn ymwneud â'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan ddarparwyr. Mae'r sylwadau hyn yn tueddu i ymwneud â darparwyr addysg amgen, fel *'canolfan Cyflwr y Sbectrwm Awtistig'* ac *'ysgol dyslecsia*'. Cyfeiriodd rhieni at y gefnogaeth gan y darparwyr hyn fel *'anhygoel'* a *'gwych'*
- sylwadau negyddol yn ymwneud â'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan ddarparwyr. Mae'r sylwadau hyn yn tueddu i ymwneud â lleoliadau ysgol prif ffrwd, gyda rhieni yn gweld diffyg cefnogaeth gan y darparwyr hyn neu nodi nad oedd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu

### Darparwyr nad oeddent yn gweithio gyda'i gilydd

Cyfeiriodd rhai rhieni at enghreifftiau o ble nad oedd darparwyr addysg eu plentyn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi eu plentyn. Mae enghreifftiau yn tueddu i gyfeirio at ganfyddiad nad yw ysgolion wedi bod yn ymgysylltu â darparwr addysg amgen y plentyn neu gysylltu â nhw.

### Cyfathrebu gwael gan ddarparwyr

Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi derbyn cyfathrebu gwael gan ddarparwyr addysg eu plentyn, gan ddisgrifio cyfathrebu fel *'ofnadwy'* ac wedi derbyn *'ychydig iawn o ddiweddariad o unrhyw werth*'.


### Problemau ar draws y system

Mynegodd rhai rhieni eu barn ar y system addysg yn ei chyfanrwydd, gan gyfeirio at sut nad yw'n gynhwysol i blant ag ADY.

## Ymwybyddiaeth o hawliau i herio penderfyniadau

Gofynnom i rieni a oeddent yn ymwybodol o'u hawliau i herio penderfyniadau o dan y system ADY:

**Ffigur 23. Ymwybyddiaeth rhieni o'u hawliau i herio penderfyniadau o dan y system ADY**





N=1610

Mae Ffigur 23 yn dangos nad oedd 54% o'r ymatebion (allan o 1610) yn ymwybodol o'u hawliau i herio penderfyniadau o dan y system ADY, o'i gymharu â 46% a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'u hawliau.

Gofynnom i rieni a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'u hawliau i herio penderfyniadau o dan y system ADY sut y cawsant eu gwneud yn ymwybodol o'r hawliau hyn:

**Ffigur 24. Ymwybyddiaeth rhieni o'u hawliau i herio'r penderfyniadau o dan y system ADY**




N=730. Nodyn: gallai rhieni fod wedi ticio mwy nag un opsiwn ymateb, ac felly efallai nad yw cyfanswm yr ymatebion yn cyfateb i 100%.

Mae Ffigur 24 yn dangos bod ymatebwyr fwyaf tebygol o nodi eu bod wedi cael gwybod am hawliau i herio trwy ysgol/lleoliad addysg eu plentyn neu CADY eu plentyn (38%) neu drwy ddulliau eraill (38%).

### Ymwybyddiaeth – sylwadau testun agored

Roedd gan rieni a ddewisodd yr opsiwn ymateb 'arall (nodwch os gwelwch yn dda)' yr opsiwn i nodi sut y cawsant wybod am eu hawliau i herio penderfyniadau o dan y system ADY drwy flwch sylwadau testun agored. Dewisodd 130 o ymatebwyr wneud hynny. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr.

### Gwybodaeth flaenorol

Nododd nifer o rieni eu bod wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau i herio penderfyniadau trwy wybodaeth yr oeddent wedi'i gaffael o'r blaen, er enghraifft:

- yn eu gweithle neu o fewn eu rôl broffesiynol
- o raglen addysg neu hyfforddiant
- gan ffrindiau a theulu
- oherwydd profiad blaenorol o herio penderfyniad ar wahân

Nododd nifer fach o rieni hefyd eu bod wedi cael eu gwneud yn ymwybodol trwy eu hymchwil bersonol amhenodol eu hunain.

### Gwasanaethau pwrpasol

Nododd rhai rhieni eu bod wedi defnyddio'r gwasanaethau a'r gefnogaeth a gynigir gan wahanol sefydliadau, er enghraifft:

- SNAP Cymru
- Barnardo's
- Cryfach Gyda'n Gilydd ar gyfer Anghenion ac Anableddau Ychwanegol (STAND)
- Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
- Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol

### Gweithwyr proffesiynol

Nododd rhai rhieni eu bod wedi cael eu gwneud yn ymwybodol trwy gysylltu â gweithwyr proffesiynol amrywiol oedd yn gyfarwydd â'r system ADY, er enghraifft:

- staff ysgol ac uned cyfeirio disgyblion
- gweithwyr cymdeithasol
- cyfreithwyr


### Adnoddau swyddogol

Nododd rhai rhieni eu bod wedi cael gwybod drwy adnoddau neu ddogfennaeth swyddogol Llywodraeth Cymru, fel y Cod ADY ei hun a gwefan Tribiwnlys Addysg Cymru.

## Herio penderfyniadau

Gofynnom i rieni a oeddent wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol yn ymwneud ag ADY.

**Ffigur 25. A oedd rhieni wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol mewn perthynas ag ADY**




N=1621

O'r 1621 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

Mae Ffigur 25 yn dangos bod llai na hanner (31%) wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol yn ymwneud ag ADY. Dywedodd y 69% arall nad oeddent wedi anghytuno.

### Anghytundebau – sylwadau testun agored

Gofynnwyd i rieni a oedd wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol, mewn perthynas ag ADY, roi rhagor o fanylion mewn perthynas â'r anghytundeb. Roedd 396 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr.

### Anghytundebau mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch derbyn CDU neu gynnal asesiadau

Adroddodd nifer o rieni eu bod wedi anghytuno â phenderfyniad i beidio â darparu CDU i'w plentyn neu beidio â chyfeirio eu plentyn am asesiad gan yr awdurdod lleol. Roedd rhai o'r sylwadau yn rai cyffredinol am anghytundebau ac fe wnaeth rhai hefyd ddarparu enghreifftiau penodol gan gynnwys:

- anghytundebau mewn perthynas â pheidio cyfeirio eu plentyn at arbenigwyr ar gyfer asesiad, er enghraifft gan seicolegydd addysg
- ysgolion neu awdurdodau lleol nad oeddent yn derbyn asesiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau preifat a gomisiynwyd gan rieni

Fe wnaeth rhieni hefyd sylwadau ar yr oedi yn y broses asesu, a oedd, yn eu barn nhw, wedi'i waethygu gan y broses anghytuno.

### Anghytundebau mewn perthynas â darpariaeth

Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi anghytuno â phenderfyniadau mewn perthynas â darparu cymorth i'w plentyn. Roedd hyn yn cynnwys rhieni a ddywedodd nad oedd darpariaeth brif ffrwd yn briodol i'w plentyn a rhieni a oedd â phryderon penodol am ddigonolrwydd neu briodoldeb DDdY eu plentyn. Cynigiodd rhai rhieni enghreifftiau o anghytundebau mewn perthynas â:

- argaeledd DDdY yn Gymraeg i'w plentyn
- penderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch darparu cludiant addas i leoliad addysg eu plentyn
- penderfyniadau awdurdodau lleol i beidio â chynnal CDU eu plentyn

### Anghytundebau mewn perthynas â lleoliad addysg

Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi anghytuno â phenderfyniadau ynglŷn â dyrannu lle i'w plentyn mewn lleoliad addysg. Mewn rhai achosion, roedd rhieni wedi nodi ysgol benodol neu fath o ddarpariaeth (er enghraifft, darpariaeth AHY neu leoliad arbenigol) yr oeddent yn credu fyddai'n diwallu anghenion eu plentyn orau ond dywedwyd wrthynt nad oedd unrhyw leoedd ar gael. Mewn achosion eraill, enwodd yr awdurdod lleol leoliad yn CDU y plentyn yr oedd rhieni yn teimlo nad oedd yn addas.


### Y broses o anghytuno â phenderfyniad

Mynegodd rhai rhieni farn negyddol ar eu profiadau o'r union broses o anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol. Esboniodd y rhieni hyn eu bod wedi profi oedi wrth dderbyn ymatebion gan sefydliadau addysg ac awdurdodau lleol a'u bod yn teimlo'n anfodlon ac yn rhwystredig gyda'r broses yn gyffredinol. Roedd gan rai rhieni bryderon am ansawdd cyfathrebu ac yn teimlo bod diffyg eglurder ynglŷn â beth oedd eu camau nesaf. Roedd rhieni eraill yn teimlo bod eu pryderon am eu plentyn yn cael eu diystyru neu eu bychanu gan leoliadau addysg ac awdurdodau lleol.

### Datrys Anghytundeb

Gofynnom i rieni a ddywedodd eu bod wedi anghytuno â phenderfyniad a oedd yr anghytundeb wedi'i ddatrys.

**Ffigur 26. A gafodd yr anghydfod ei ddatrys**




N=489

Mae Ffigur 26 yn dangos bod llai na hanner (32%) o'r 489 o ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi ateb bod yr anghytundeb wedi ei ddatrys. Dywedodd y 68% oedd yn weddill nad oedd yr anghytundeb wedi'i ddatrys.

### Datrys anghytundeb – sylwadau testun agored

Cafodd rhieni a oedd wedi anghytuno â phenderfyniad gyfle hefyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y penderfyniad, os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Gwnaeth 194 o ymatebion ddarparu wybodaeth ychwanegol.

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr. Nodwyd ystod eang o themâu mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ac ni chodwyd un thema gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Dylid nodi, felly, fod pob un o'r themâu a grynhoir isod wedi'u nodi gan leiafrif neu leiafrif bach o'r 194 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

### Rhagor o wybodaeth am anghytundebau a ddatryswyd

Esboniodd rhieni a adroddodd fod yr anghytundeb wedi'i ddatrys fod y cymorth angenrheidiol wedi'i ddarparu i'w plentyn, er enghraifft:

- derbyn yr adnoddau priodol
- derbyn CDU

- derbyn asesiad neu ddiagnosis
- sicrhau lle mewn lleoliad addysgol priodol

Dywedodd rhai o'r rhieni hyn fod eu hanghytundeb wedi'i ddatrys oherwydd y lefel uchel o ymdrech ganddynt yn bersonol, er enghraifft cwblhau ceisiadau niferus neu fygwth camau pellach.

Mewn rhai achosion, dywedodd rhieni eu bod wedi derbyn cymorth gan weithwyr proffesiynol (e.e. gweithwyr cymdeithasol, athrawon, therapyddion) a bod hyn wedi hwyluso eu llwyddiant wrth ddatrys yr anghytundeb.

Adroddodd rhieni eraill fod eu hapêl Tribiwnlys wedi bod yn llwyddiannus, neu fod yr anghytundeb wedi'i ddatrys gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol ac felly wedi osgoi'r angen i fynd ymlaen ag apêl y Tribiwnlys.

**Rhagor o wybodaeth am anghytundebau heb eu datrys**

Nododd rhieni nad oedd yr anghytundeb wedi'i ddatrys eto eu bod yn wynebu rhai rhwystrau tuag at ddatrys yr anghydfod, er enghraifft:

- teimlo fel na wrandawyd ar eu pryderon
- teimlo fel pe baent yn 'ymladd' â'r system
- diffyg neu oedi mewn cyfathrebu a chymorth gan ysgolion neu awdurdodau lleol
- diffyg gwybodaeth am sut i fynd ar drywydd apêl gan y Tribiwnlys
- diffyg diagnosis ffurfiol i seilio'r cais am ddarpariaeth

Dywedodd rhai o'r rhieni hyn fod rhai elfennau o'u anghytundeb wedi'u datrys, ond bod yr anghytundeb yn parhau oherwydd nad oedd wedi'i ddatrys yn llawn. Esboniodd y rhieni hyn fod cytundebau wedi'u gwneud ar lafar ond nad oedd y rhain wedi'u gweithredu neu eu cyflawni eto.


Mewn rhai achosion, adroddodd rhieni eu bod wedi rhoi'r gorau i geisio datrys yr anghytundeb. Nododd y rhieni hyn eu bod wedi penderfynu dilyn llwybrau eraill o gymorth ar eu telerau eu hunain, er enghraifft diagnosis neu asesiadau preifat, dewis hunan-ariannu lleoliad preifat i'w plentyn, neu dynnu eu plentyn o'r ysgol.

Adroddodd rhieni eraill fod eu hanghytundeb wedi mynd i Dribiwnlys, ond bod yr apêl wedi bod yn aflwyddiannus yn y pen draw.

## Bodlonrwydd â'r system ADY, gan gynnwys DDdY (rhieni dysgwyr sydd â CDU)

Gofynnom i rieni y mae gan eu plentyn CDU i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â bodlonrwydd ag agweddau ar y system ADY, gan gynnwys DDdY.

**Ffigur 27. Ymatebion gan rieni plant â CDU i ddatganiadau sy'n ymwneud â bodlonrwydd â'r system ADY**




N = 916 i 922

Mae Ffigur 27 yn dangos bod dros hanner (59%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod lleoliad ysgol/addysg eu plentyn yn hybu eu cynhwysiant yng nghymuned yr ysgol.

Mae tua hanner (52%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf":

- bod y rhai oedd yn cefnogi eu plentyn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd (52%)
- bod y DDdY a dderbyniodd eu plentyn yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu haddysg (48%)

Roedd llai na hanner (45%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod ADY eu plentyn yn cael eu diwallu yn eu haddysg.

Roedd lleiafrif (29%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y system ADY yn helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr. Tra bod 44% yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

### Bodlonrwydd gyda DDdY (rhieni dysgwyr sydd â CDU) – sylwadau testun agored

Ar ôl y cwestiynau caeedig yn ymwneud â'u bodlonrwydd ag DDdY, gofynnwyd i rieni y mae gan eu plentyn CDU a oeddent yn dymuno darparu unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â'r datganiadau hyn. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf ar draws y 196 o ymatebion a dderbyniwyd.

Roedd y rhai a roddodd ymateb i'r cwestiwn testun agored yn fwy tebygol o feddwl bod lleoliad addysg eu plentyn yn hybu eu cynhwysiant yn amgylchedd yr ysgol ac yn llai tebygol o feddwl bod y system ADY yn helpu i wella profiadau rhieni/gofalwyr, neu fod y rhai a gefnogodd eu plentyn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mynegodd rhieni a roddodd ymateb i'r cwestiwn testun agored farn gymysg mewn ymateb i'r cwestiynau caeedig ar y datganiadau “Mae’r DDdY y mae fy mhlentyn yn ei derbyn yn ei helpu i wneud cynnydd yn ei h/addysg” a “Mae anghenion dysgu ychwanegol fy mhlentyn yn cael eu diwallu yn ei h/addysg”. Cyflwynir hyn yn y themâu a nodir isod.

### Cymorth i blant a'u teuluoedd

Fe wnaeth nifer o rieni wneud sylwadau ar y gefnogaeth yr oedd eu plentyn a'r teulu wedi'u derbyn gan ddarparwyr addysg, gweithwyr iechyd proffesiynol ac awdurdodau lleol. Adroddodd y rhieni hyn:

- Amrywiaeth o safbwyntiau ynglŷn â'r cymorth gan ysgolion: roedd y rhieni hyn yn tueddu i ddweud eu bod yn derbyn cefnogaeth wael, annigonol neu heb dderbyn unrhyw gefnogaeth gan ysgol eu plentyn, tra bod eraill, er yn llai o rieni, yn dweud eu bod wedi derbyn digon o gymorth gan yr ysgol:
    - Ymhlith y safbwyntiau a fynegwyd roedd y farn nad oedd y gefnogaeth neu'r DDdY a ddarparodd ysgolion i'w plentyn yn hybu eu cynhwysiant yng nghymuned yr ysgol. Cyfeiriodd rhieni eraill at eu plentyn yn derbyn cymorth y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth prif ffrwd (e.e. un i un mewn ystafell ddosbarth ar wahân), neu eu plentyn yn cael ei wahardd o'r ysgol oherwydd eu hymddygiad, a briodolodd rhieni i'w ADY
    - Mewn rhai achosion, gwnaeth rhieni sylwadau ar gyfathrebu gwael gan ddarparwyr addysg ynghylch prosesau, darpariaeth a chynnydd eu plentyn. Mynegodd y rhieni hyn rwystredigaeth gan eu bod yn teimlo na wrandawyd arnynt
    - Atebodd rhai rhieni'n gadarnhaol ac yn teimlo eu bod wedi derbyn lefel dda o gyfathrebu
- bod cefnogaeth gadarnhaol yn gyffredinol gan weithwyr iechyd proffesiynol, ond nododd ymatebwyr fod amseroedd aros hir am ddiagnosis
- bod y cymorth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn brin neu nad oedd yn sicrhau bod ADY eu plentyn yn cael eu diwallu
- anghysondebau wrth ddarparu cymorth ar draws rhanbarthau a rhwng ysgolion, gan nodi diffyg tegwch wrth weithredu'r system

### Cyllid a chapasiti

Dywedodd rhai rhieni am ddiffyg cyllid ac adnoddau i weithredu'r system ADY yn ddigonol a sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn derbyn y cymorth angenrheidiol. Ymhlith yr ymatebwyr

hyn, cododd rhai y materion o ddiffyg capasiti o fewn darparwyr addysg, gan gyfeirio at ddiffyg staff o fewn darparwyr.

**Pa mor dda mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd**

Roedd rhieni eraill yn teimlo nad oedd darparwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Cyfeiriwyd at gyfathrebu gwael a rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr, gan nodi bod angen gwella hyn. Mewn rhai achosion, adroddodd rhieni hefyd eu bod yn teimlo fel mai nhw oedd y rhai oedd yn hwyluso cyswllt rhwng darparwyr.

**'Brwydr' i rieni**

Cyfeiriodd nifer o rieni at deimlo eu bod yn wynebu *'brwydr'* er mwyn sicrhau bod anghenion eu plentyn yn cael eu cydnabod a bod eu plentyn yn derbyn y gefnogaeth yr oeddent yn teimlo eu bod ei angen. O ganlyniad, dywedodd rhai rhieni eu bod yn profi straen ac yn teimlo'n anobeithiol.

**Canfyddiad bod y system ADY yn gymhleth ac yn ddryslyd**

Roedd ymatebion yn dangos canfyddiad ymhlith rhai rhieni bod y system ADY yn gymhleth ac yn ddryslyd a/neu'r Ddeddf yn amwys ac yn agored i'w dehongli.


**Arbenigedd a sgiliau staff**

Roedd rhieni eraill yn teimlo nad oedd gan ddarparwyr addysg bob amser staff gyda'r arbenigedd a'r sgiliau perthnasol i gefnogi eu plentyn. Roedd y rhieni hyn o'r farn bod angen mwy o hyfforddiant i sicrhau bod staff wedi'u huwchsgilio i gefnogi plant a'u teuluoedd.

## Bodlonrwydd â'r system ADY (dim CDU)

Gofynnwyd i rieni nad oedd gan eu plentyn CDU i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â bodlonrwydd â'r system ADY.

**Ffigur 28. Ymatebion gan rieni nad oedd gan eu plentyn CDU i ddatganiadau oedd yn ymwneud â bodlonrwydd â'r system ADY**




N = 656 i 657

Mae Ffigur 28 yn dangos bod llai na hanner (45%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod lleoliad ysgol/addysg eu plentyn yn hybu eu cynhwysiant yng nghymuned yr ysgol. Roedd 26% arall "ddim yn cytuno nac yn anghytuno" â'r datganiad hwn.

Roedd lleiafrif bach (14%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y system ADY yn helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr. Llai na hanner (43%) yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno", a 39% arall "ddim yn cytuno nac yn anghytuno" â'r datganiad hwn.

### Bodlonrwydd gyda'r system ADY (rhieni dysgwyr heb CDU) – sylwadau testun agored

Ar ôl y cwestiynau cau yn ymwneud â'u bodlonrwydd â'r system ADY, gofynnwyd i rieni nad oedd gan eu plentyn CDU a oeddent yn dymuno darparu unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â'r datganiadau hyn. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf ar draws y 159 o ymatebion a dderbyniwyd.

Roedd y rhai a roddodd ymateb i'r cwestiwn testun agored wedi mynegi barn gymysg mewn ymateb i'r datganiad canlynol: "Mae ysgol/lleoliad addysg fy mhlentyn yn hybu ei chynhwysiant/gynhwysiant yng nghymuned yr ysgol" ac roeddent yn llai tebygol o feddwl bod y system ADY yn helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr. Adlewyrchir hyn yn y themâu a nodir isod.

Roedd y cwestiwn testun agored a gyflwynwyd o dan y cwestiynau ar y system ADY (ac DDdY ar gyfer y rhai sydd ag CDUau) yr un peth ar gyfer rhieni plant gyda a heb CDUau. Fodd bynnag, cyflwynwyd 5 datganiad cwestiynau caeedig i rieni plant heb CDUau o'i gymharu â 2 ddatganiad a gyflwynwyd i rieni plant heb CDU. Roedd y themâu a nodwyd gan rieni nad oedd gan eu plentyn CDU yn debyg i'r rhai a nodwyd gan rieni y mae gan eu plentyn CDU, ac mae'r rhain wedi'u cyflwyno isod.

**Anfodlonrwydd gyda'r gefnogaeth a ddarperir i blant a'u teuluoedd**

Gan adleisio sylwadau gan rieni dysgwyr sydd â CDU, cyflwynodd y rhai nad oedd gan eu plant CDU farn oedd hefyd yn dangos eu bod wedi derbyn cefnogaeth wael neu annigonol. Mewn rhai achosion, cyfeiriodd rhieni dysgwyr heb CDU at enghreifftiau lle roedd eu plentyn wedi'i wahardd o'r ysgol oherwydd ymddygiad, fodd bynnag, roeddent yn teimlo y dylai eu plentyn fod yn derbyn cymorth gan yr ysgol yn hytrach na chael ei eithrio. Ymhlith yr ymatebwyr hyn nododd rhai eu hanfodlonrwydd gyda'r gefnogaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol, gan fynegi pryder nad oedd anghenion eu plant yn cael eu diwallu.

**Pryderon ehangach a fynegwyd yn ymwneud â'r system ADY**

Mynegodd nifer o rieni bryderon am y system ADY, gyda rhai yn nodi nad oedd yn 'addas at y diben' neu nad oedd yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar eu plentyn. Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys:

- achosion lle roedd gan blant ddatganiadau AAA ar waith cyn y diwygiadau ADY ond bellach nid oedd ganddynt CDU, gan arwain at dderbyn llai o gymorth nag o'r blaen
- rhai rhieni yn teimlo nad oedd y Cod/canllawiau ADY neu wybodaeth arall yr oeddent wedi'u derbyn mewn perthynas â'r system ADY yn cyd-fynd ag arferion ALlau a darparwyr addysg. Roedd sylwadau yn aml yn cyd-fynd â'r rhain yn nodi eu bod yn teimlo bod gan eu plentyn ADY, ond nad oedd y rhain yn cael eu cydnabod ac o ganlyniad nid oedd ganddynt CDU
- mewn rhai achosion, roedd darparwr addysg y plentyn wedi esbonio bod y cymorth ei angen ar eu plentyn yn cael ei gynnig gan y darparwr fel darpariaeth gyffredinol. Fodd bynnag, roedd rhieni yn credu bod darparwyr yn datgan bod eu plentyn yn cael ei gefnogi trwy ddarpariaeth gyffredinol er mwyn osgoi ysgrifennu CDU ar gyfer eu plentyn
- canfyddiad ymhlith rhai rhieni bod y system ADY yn gymhleth ac yn anodd ei llywio

**Cyllid a chapasiti**

Roedd rhieni plant heb CDU hefyd yn aml yn nodi canfyddiad nad oedd digon o gyllid ac adnoddau i ddarparu cymorth priodol i'w plentyn. Cyfeiriodd y rhieni hyn at deimlo nad oedd gan ddarparwyr addysg gapasiti staff digonol i ddarparu cymorth oedd yn diwallu anghenion eu plentyn

**Heriau a adroddwyd gan rieni wrth gael gafael ar gymorth**

Defnyddiodd rhai rhieni plant oedd heb CDU iaith debyg i’r hyn a ddefnyddiwyd gan rieni plant ag CDUau, gan ddisgrifio'r 'brwydrau' yr oeddent wedi'u profi wrth geisio cael eu

hanghenion wedi eu cydnabod a'u cefnogi. Fe wnaethant gyfeirio at y rhwystredigaeth a'r straen yr oedd hyn wedi'i achosi.

**Arbenigedd a sgiliau staff**

Gan adleisio barn rhieni plant sydd â CDUau, roedd rhai rhieni plant heb CDUau yn teimlo nad oedd gan ysgolion a darparwyr addysg y staff gyda'r arbenigedd a'r sgiliau perthnasol bob amser i'w cefnogi nhw a'u plentyn a bod angen mwy o ddysgu proffesiynol i fynd i'r afael â hyn.

## Plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref

Gofynnwyd i rieni a ddywedodd bod eu plentyn yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref (gan gynnwys rhieni plant gyda a heb CDU) a oedd eu plentyn wedi cael ei ddadgofrestru o'r ysgol yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Dywedodd dros hanner yr ymatebion i'r cwestiwn hwn (19 allan o 33, 58%) fod eu plentyn wedi cael ei ddadgofrestru o'r ysgol yn ystod y 12 mis diwethaf
- Fe ofynnon ni hefyd i rieni a ddywedodd bod eu plentyn yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref a oedd eu penderfyniad i ddechrau addysgu eu plentyn gartref wedi cael ei ddylanwadu gan unrhyw bryder na fyddai'r addysg a gynigir gan yr awdurdod lleol yn diwallu anghenion dysgu eu plentyn. Gwnaeth y mwyafrif helaeth (28 allan o 33, 85%) o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn ateb "oedd". Dywedodd y 5 arall (allan o 33) "nac oedd"


O'r 28 ymateb a ddywedodd bod eu penderfyniad i ddechrau addysgu gartref eu plentyn wedi'i ddylanwadu gan unrhyw bryder na fyddai'r addysg a gynigir gan yr awdurdod lleol yn diwallu anghenion dysgu eu plentyn:

- Dywedodd tua hanner (14 allan o 28, 50%) y byddai'n well ganddynt i'w plentyn ddychwelyd i'r ysgol pe bai cymorth a darpariaeth briodol ar waith
- Dywedodd lleiafrif (5 allan o 28, 18%) na fyddai'n well ganddynt i'w plentyn ddychwelyd i'r ysgol
- Dywedodd y 9 arall (allan o 28, 32%) nad oeddent yn siŵr

### Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDdY) – dysgwyr sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref

Fe ofynnon ni i rieni plant â CDU ac oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref pwy oedd yn darparu'r DDdY fel yr amlinellir yn Adran 2 o'r CDU.

**Ffigur 29. Pwy ddarparodd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a amlinellir yn CDU eu plentyn**




N=14. Nodyn: gallai rhieni fod wedi ticio mwy nag un opsiwn ymateb


Mae Ffigur 29 yn dangos o'r 14 ymateb a nododd pwy oedd yn darparu'r DDdY fel yr amlinellir yn Adran 2 o'r CDU, dywedodd 9 (64%) mai rhiant/gofalwr yn darparu'r DDdY.

Fe ofynnon ni hefyd i rieni plant â CDU ac oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod yr awdurdod lleol wedi esbonio'n glir DDdY eu plentyn iddynt. Ymhlith yr 16 rhiant a atebodd y cwestiwn hwn, roedd lleiafrif (3 allan o 16, 38%) yn "cytuno", Roedd dros hanner (9 allan o 16, 57%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" a'r 3 rhiant arall (3 allan o 16, 19%) "ddim yn cytuno nac yn anghytuno"

### Bodlonrwydd â'r system ADY (derbyn addysg ddewisol yn y cartref)

Gofynnwyd i rieni plant â CDU ac a oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau oedd yn ymwneud â bodlonrwydd â'r system ADY.

**Ffigur 30. Ymatebion gan rieni plant â CDU ac a oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref i ddatganiadau yn ymwneud â bodlonrwydd â'r system ADY**




N=15 i 16. Dim rhiant a ddewiswyd "cytuno'n gryf" mewn ymateb i'r cwestiwn hwn

Mae Ffigur 30 yn dangos mai lleiafrif bach (2 allan o 16, 13%) oedd yn cytuno bod y rhai oedd yn cefnogi eu plentyn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd llai na hanner (6 allan o 16, 38%) yn "anghytuno" neu "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn. Yn yr un modd, roedd 6 ymateb (allan o 16, 38%) "ddim yn cytuno nac yn anghytuno".

Roedd lleiafrif bach (2 allan o 16, 13%) yn cytuno bod y DDdY a dderbyniwyd gan eu plentyn yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu haddysg. Llai na hanner (6 allan o 16, 38%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf".

Roedd lleiafrif bach (1 allan o 16, 6%) yn "cytuno" bod y system ADY yn helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr. Mae mwy na hanner (10 allan o 16, 63%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

Gwahoddwyd rhieni i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i'w hymateb i'r datganiadau hyn, a derbyniwyd 6 ymateb. Mae'n bwysig nodi, felly, bod y canfyddiadau a nodir yn yr adran hon yn seiliedig ar nifer cyfyngedig o ymatebion. Roedd y rhai a ddewisodd ddarparu sylwadau ychwanegol yn fwy tebygol o anghytuno â'r 3 datganiad neu nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Ymhlith y pwyntiau a nodwyd roedd cyfeiriad at dderbyn dim "help na chefnogaeth", canfyddiad bod y system ADY yn gymhleth, llai o ymddiriedaeth yn y system addysg, diffyg canllawiau gan yr ALl a gweithrediad gwael o'r cod ADY gan yr ysgol.

Gofynnom i rieni a ddywedodd nad oedd gan eu plentyn CDU ac a oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno datganiad "Mae'r system ADY yn helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr." Roedd 11 (allan o 17 a atebodd, 65%) yn "anghytuno'n gryf" ac roedd 2 riant (12%) yn "anghytuno" bod y system ADY yn

helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr. Roedd 2 rhiant hefyd “ddim yn cytuno nac yn anghytuno" ac 1 yn “cytuno”.

Gofynnwyd i rieni roi sylwadau pellach mewn perthynas â'r datganiad hwn, a derbyniwyd 5 ymateb. Mae'n bwysig nodi, felly, bod y canfyddiadau a nodir yn yr adran hon yn seiliedig ar nifer cyfyngedig o ymatebion. Roedd y rhai a ddewisodd ddarparu sylwadau ychwanegol yn fwy tebygol o anghytuno bod y system ADY yn helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr. Ymhlith y pwyntiau a nodwyd roedd cyfeiriadau at:

- profiadau gwael o'r system ADY a'r system addysg yn gyffredinol
- canfyddiad o ormod o bwyslais yn cael ei roi ar bresenoldeb a chwblhau gwaith papur a dim digon ar gefnogi plant
- dewis addysg gartref ddewisol oherwydd canfyddiad nad oedd y system ADY yn addas at y diben

## Barn gyffredinol ar y system ADY

### Beth sy'n gweithio'n dda

Gofynnwyd i rieni wneud sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn gweithio'n dda o dan y system ADY. Roedd 885 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr. Nodwyd ystod eang o themâu mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ac ni chodwyd un thema gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Dylid nodi, felly, bod pob un o'r themâu a grynhoir isod wedi'u nodi gan leiafrif neu leiafrif bach o'r 885 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Atebodd nifer o rieni y cwestiwn hwn trwy adrodd nad oedd unrhyw beth yn gweithio'n dda o dan y system ADY neu bod ychydig iawn yn gweithio’n dda. Cododd rhieni a ymhelaethodd ar hyn bryderon am faterion gan gynnwys diffyg capasiti (e.e. staff), adnoddau (e.e. cyllid) a darpariaeth a chymorth addas i'w plentyn. Roedd rhai rhieni’n teimlo bod anghysondeb yn y cymorth oedd ar gael mewn gwahanol ysgolion ac yn codi pryderon nad oedd y cymorth sydd ar gael mewn ysgolion uwchradd mor dda â’r hyn oedd ar gael mewn ysgolion cynradd.

Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu’r themâu eraill a nodwyd amlaf mewn perthynas â’r hyn yr oedd rhieni’n teimlo oedd yn gweithio’n dda.

### CDUau, prosesau cynllunio ac adolygu

Adroddodd rhai rhieni fod prosesau oedd yn ymwneud â CDUau, yn enwedig cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chynllunio yn gweithio'n dda. Roedd y rhieni hyn yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod anghenion eu plentyn mewn cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chyfarfodydd adolygu a nododd fod targedau mewn CDUau yn glir ac yn ddefnyddiol iddynt. Fe wnaeth rhai rhieni hefyd wneud sylwadau ar yr amserlenni clir ar gyfer creu ac adolygu CDUau.

### Ymgysylltu ag CADYau a staff eraill yr ysgol

Roedd gan rai rhieni farn gadarnhaol ar eu hymgysylltiad gyda CADYau a staff eraill yn ysgol eu plentyn. Roedd hyn yn cynnwys rhieni a adroddodd bod:

- ymwybyddiaeth gynyddol o ADY ymhlith staff yn ysgol eu plentyn
- ysgol eu plentyn yn dod yn amgylchedd dysgu mwy cynhwysol, gan gyfeirio at addasiadau a wnaed i'r ddarpariaeth a ddarperir fel arfer gan ysgolion (y cyfeirir atynt yn aml fel darpariaeth 'gyffredinol')
- y prosesau darparu cymorth a chynllunio yn canolbwyntio ar blant yn fwy
- bod rhieni yn cymryd mwy o ran mewn prosesau

### Cymorth a ddarperir i'w plentyn

Mynegodd rhai rhieni farn gadarnhaol am y gefnogaeth yr oedd eu plentyn yn ei dderbyn. Roedd y rhieni hyn yn gwneud sylwadau yn gyffredinol a hefyd yn darparu enghreifftiau penodol o'r math o gymorth yr oeddent yn cyfeirio ato gan gynnwys:

- eu plentyn yn cael mwy o amser i gwblhau arholiadau
- eu plentyn yn dysgu mewn dosbarthiadau llai
- bod eu plentyn mewn canolfan adnoddau dysgu neu ysgol arbennig
- cymorth un-i-un gan staff ymroddedig (e.e. Gweithwyr Cymorth Dysgu)
- offer a ddarperir i gefnogi eu dysgu (e.e. gliniadur)

### Cyfathrebu a gwybodaeth

Roedd rhai rhieni wedi gwneud sylwadau ar gyfathrebu da a gwybodaeth ddefnyddiol a gawsant gan ysgol eu plentyn a/neu eu hawdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau ar amlder cyfathrebu yn ystod y broses gynllunio, cyfathrebu am anghenion eu plentyn a chynnydd yn erbyn targedau. Soniodd rhai rhieni fod y system ADY yn haws i'w 'llywio' a chyfeiriodd at y canllawiau a gawsant eu bod yn teimlo eu bod yn glir. Cynigiodd y rhieni hyn enghreifftiau o ffynonellau cyngor yr oeddent wedi'u gweld yn ddefnyddiol fel y Cod ADY, gwefannau, elusennau a llinell gymorth ADY.

### Adnabod ADY

Adroddodd rhai rhieni fod prosesau adnabod anghenion wedi gwella, gan sôn yn benodol am adnabod anghenion cynnar ar gyfer plant o dan oed ysgol. Roedd rhieni yn teimlo ei bod yn fuddiol nad oedd angen diagnosis ar gyfer cyflwr penodol ar eu plentyn o reidrwydd i gael CDU.

### Pwyntiau eraill

Roedd pwyntiau eraill a nodwyd gan rieni yn cynnwys:

- barn gadarnhaol yn gyffredinol am y system ADY a sut roedd eu plentyn yn gwneud cynnydd mewn gwahanol agweddau ar eu haddysg

- barn bod y system ADY yn dda mewn egwyddor ond nad oedd digon o gapasiti na chyllid i'w gweithredu'n effeithiol yn ymarferol neu y cymerir yn ganiataol bod gan rieni lefel benodol o wybodaeth a dealltwriaeth
- barn gadarnhaol ar atebolrwydd a hawliau plant a rhieni, gan gynnwys hawliau i herio ac apelio yn erbyn penderfyniadau
- barn gadarnhaol ar ymestyn y system i 25 oed
- barn gadarnhaol ar gydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff iechyd

### Beth sy'n gweithio'n llai da

Gofynnwyd i rieni wneud sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn gweithio'n llai da, ac i awgrymu unrhyw welliannau i'r system ADY. Roedd 1010 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr. Adroddwyd am ystod eang o faterion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ac ni chodwyd un thema gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Dylid nodi, felly, fod pob un o'r themâu a grynhoir isod wedi'u nodi gan leiafrif neu leiafrif bach o'r 1010 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

### Capasiti, adnoddau a darpariaeth

Cyfeiriodd rhai rhieni at ddiffyg capasiti (e.e. staff), adnoddau (e.e. cyllid) a darpariaeth addas (e.e. grwpiau llai, darpariaeth amgen, deunyddiau dosbarth penodol) mewn darparwyr addysg, awdurdodau lleol a/neu gyrff iechyd. Soniodd y rhieni hyn am y materion yma:

- diffyg capasiti staff, gan gyfeirio at lwyth gwaith uchel eu CADY ac adroddwyd bod gostyngiadau wedi bod yn nifer y gweithwyr cymorth dysgu sydd ar gael yn ysgol eu plentyn
- y byddai'r system ADY yn cael ei gwella pe bai mwy o ddewisiadau amgen yn lle darpariaeth ysgol prif ffrwd ar gael, ond bod diffyg cyllid ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)
- pryderon am faint o gyllid sydd ar gael yn gyffredinol ar gyfer darparu ADY yn ogystal â mecanweithiau cyllido a phrosesau gwneud penderfyniadau
- pryderon am gymorth neu ddarpariaeth benodol yr oeddent yn credu ei fod yn brin, gan gynnwys:
  - diffyg cefnogaeth i rieni (e.e. gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, cymorth i ddeall y broses o greu cyfarfodydd CDU a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)
  - diffyg cefnogaeth a diffyg DDdY addas ar gyfer dysgwyr ôl-16
  - diffyg deunyddiau dosbarth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr

### Cyfathrebu â rhieni

Dywedodd rhai rhieni am yr angen i ddarparwyr addysg, awdurdodau lleol a chyrff iechyd wella eu cyfathrebu gyda rhieni. Roedd hyn yn cynnwys:

- rhieni a oedd yn teimlo nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth am y system ADY ac felly heb ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brosesau. Roedd y rhieni hyn yn teimlo y gellid gwella'r system ADY trwy roi mwy o wybodaeth iddynt
- rhieni a oedd yn teimlo bod y cyfathrebu a gawsant gan ddarparwr addysg eu plentyn am brosesau ADY a/neu gynnydd eu plentyn yn annigonol ac angen gwella
- rhieni a oedd yn teimlo bod y wybodaeth a gawsant yn aneglur neu'n cynnwys iaith nad oedd yn ddigon hygyrch. Roedd y rhieni hyn yn teimlo y dylai gwybodaeth am y system ADY fod yn gliriach

**Sgiliau ymarferwyr a dysgu proffesiynol**

Roedd rhai rhieni yn teimlo bod diffyg arbenigedd am ADY ymhlith y gweithlu addysg, a/neu y gellid gwella'r system ADY trwy ddarparu mwy o hyfforddiant ar ADY i ymarferwyr. Roedd y rhieni hyn yn gweld angen am ragor o ffocws ar ADY mewn Addysg Gychwynnol Athrawon yn ogystal â datblygiad proffesiynol parhaus sy'n ymwneud â chydnabod a chefnogi plant sydd â mathau penodol o ADY.

**Diwallu anghenion dysgwyr**

Dywedodd rhai rhieni nad oedd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu yn eu haddysg. Roedd hyn yn cynnwys rhieni a oedd yn teimlo:

- bod angen dull mwy unigol ar eu plentyn, ac nad oedd darparwr addysg eu plentyn yn gallu darparu hyn
- bod angen i ysgolion prif ffrwd fod yn fwy cynhwysol i ddiwallu anghenion eu plant
- bod lles eu plentyn yn cael ei effeithio oherwydd nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu

**Amseroldeb prosesau**

Roedd rhai rhieni o'r farn bod prosesau yn y system ADY yn cymryd rhy hir, yn enwedig prosesau adnabod a phenderfyniadau i bennu ADY. Cyfeiriodd y rhieni hyn at enghreifftiau gan gynnwys:

- amseroedd aros hir i gael mynediad at wasanaethau gan gyrff iechyd
- gofyn am gyngor gan ddarparwyr gofal iechyd preifat i geisio cyflymu prosesau
- bod prosesau system ADY yn rhy gymhleth, gan sôn yn benodol am atgyfeiriadau, prosesau CDU a thribiwnlys, a bod hyn yn effeithio ar amseroldeb prosesau

**Gwrando ar rieni**

Mynegodd rhai rhieni rwystredigaethau na wrandawyd yn ddigonol ar eu barn gan ddarparwyr addysg, awdurdodau lleol a/neu gyrff iechyd. Ymhlith y rhain, adroddodd rhieni eu bod wedi gorfod bod yn barhaus wrth eirioli ar ran eu plant, gan ddisgrifio prosesau yr oeddent yn teimlo eu bod yn wrthwynebol ac yn cymryd llawer o amser. Nododd rhai rhieni fod y rhain yn rhwystrau i'w plentyn dderbyn y ddarpariaeth neu'r cymorth yr oeddent yn teimlo ei fod ei angen. Fe wnaeth rhai rhieni sylwadau ar y cymorth sydd ar gael i rieni, gan nodi pwysigrwydd mynediad at gyngor ac eiriolaeth annibynnol.

### Heriau wrth weithredu'r system ADY

Roedd rhai rhieni yn gweld nad oedd darparwyr addysg yn gallu gweithredu agweddau ar y system ADY yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys:

- pryderon am ansawdd CDUau, gyda rhieni yn nodi nad oeddent yn benodol nac wedi teilwra yn ddigon i'w plentyn, gyda DDdY heb ei diffinio'n glir (e.e. nifer yr oriau ynghlwm wrth gymorth a nodwyd)
- anghysondebau yn y dulliau o baratoi CDUau. Roedd rhieni'n teimlo y dylai fod prosesau sicrhau ansawdd gwell neu ddull mwy safonol
- sylwadau nad oedd CDU eu plentyn yn cael ei weithredu, er enghraifft nad oedd darparwyr addysg eu plentyn yn gallu cyflwyno DDdY fel y disgrifiwyd yn y CDU, neu nad oedd dyddiadau adolygu CDU yn cael eu cwrdd
- rhieni a oedd yn teimlo nad oedd ymarferwyr yn poeni digon am anghenion eu plentyn i gadw at gynnwys y CDU

### Diffiniadau o ADY ac DDdY

Fe wnaeth rhai rhieni sylwadau ar faterion a heriau oedd yn ymwneud â diffiniadau o ADY ac DDdY. Er enghraifft, gwnaeth rhai o'r rhieni hyn sylwadau ar anghytundebau a oedd wedi bod rhyngddynt â darparwr addysg eu plentyn neu awdurdod lleol ynghylch a oedd gan eu plentyn ADY ai peidio, ac a oedd angen DDdY ar eu plentyn. Nodwyd y sylwadau hyn yn aml ochr yn ochr â phryderon rhai rhieni nad oedd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu, gyda rhai yn teimlo nad oedd y ddarpariaeth "gyffredinol" yr oedd eu plentyn yn ei dderbyn gan eu darparwr addysg yn ddigonol.

### Materion eraill

Roedd pwyntiau eraill a nodwyd gan rieni yn cynnwys:

- anfodlonrwydd cyffredinol gyda'r rhan fwyaf neu bob agwedd ar y system ADY
- barn gyferbyniol nad oedd unrhyw beth yn y system ADY oedd angen ei wella
- problemau gyda chydweithrediad gwael rhwng darparwyr addysg, awdurdodau lleol a chyrff iechyd
- amgylcheddau ysgol nad oeddent yn addas i'w plentyn, gyda rhieni yn darparu enghreifftiau fel ystafelloedd dosbarth, adeiladau ac offer nad oeddent yn briodol.
- Cododd nifer fach o rieni bryderon hefyd am strwythur y diwrnod ysgol neu'r amserlen, trafnidiaeth ysgol, heriau yn ymwneud â phontio, megis ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd a phontio ôl-16, yn ogystal â phrosesau o fewn y system ADY, megis trosglwyddo o Ddatganiadau i CDUau.

# 4. Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae'r crynodeb isod yn seiliedig ar y canfyddiadau a gyflwynir ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn. Wrth ddehongli'r crynodeb hwn, dylid ystyried cyfyngiadau'r fethodoleg (gweler Pennod 2).

## Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)

Dywedodd dros hanner yr ymatebion fod gan eu plentyn CDU. Roedd rhieni a atebodd nad oedd gan eu plentyn CDU fwyaf tebygol o ddweud bod hyn oherwydd bod lleoliad addysg neu awdurdod lleol eu plentyn wedi penderfynu nad oedd angen DDdY arnynt.

Mewn sylwadau testun agored, nododd rhai rhieni fod disgwyl i anghenion addysgol eu plentyn gael eu diwallu o dan 'ddarpariaeth gyffredinol' ac yn nodedig, mynegodd ymatebion farn gymysg mewn perthynas â digonolrwydd hyn. Roedd hefyd yn farn gyffredin ymhlith rhieni a ddarparodd sylwadau ychwanegol bod angen cael diagnosis er mwyn i'w plentyn gael CDU.

## Barn am y gefnogaeth a ddarperir

Roedd barn gymysg ymhlith rhieni ynghylch a oedd y cymorth a ddarperir gan ysgol neu ddarparwr addysg eu plentyn yn diwallu eu hanghenion. Roedd rhieni plant â CDU yn fwy tebygol o deimlo bod y gefnogaeth yn ddigonol o'i gymharu â rhieni plant heb CDU.

Roedd y materion a nodwyd amlaf mewn ymatebion testun agored yn ymwneud â diffyg capasiti neu adnoddau i ddiwallu angen; darpariaeth anaddas neu annigonol; pryderon oedd yn ymwneud ag ysgolion ac awdurdodau lleol e.e. diffyg ymwybyddiaeth o ADY; profiadau cadarnhaol o ymgysylltu gyda CADY eu plentyn a staff eraill yr ysgol; a phryderon am y broses o adnabod ADY eu plentyn.

## Gwybodaeth a chanllawiau

Roedd safbwyntiau cymysg ar eglurder y wybodaeth yr oedd rhieni wedi'u cyrchu mewn perthynas â'r system ADY: roedd cyfran yr ymatebion a oedd yn cytuno bod gwybodaeth yn glir yn debyg i'r gyfran a oedd yn anghytuno â hyn neu'n mynegi barn niwtral. Nododd y rhai a oedd yn anghytuno mewn sylwadau testun agored bod diffyg gwybodaeth a chefnogaeth glir yn aml; neu nad oedd digon o wybodaeth, neu wybodaeth wrthgyferbyniol neu gamarweiniol.

Mynegodd dros hanner yr ymatebion fod angen mwy o wybodaeth, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â'r system ADY.

## Adnabod ADY

Roedd dros hanner yr ymatebion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn prosesau i adnabod ADY eu plentyn ac y gwrandawyd arnynt yn ystod y broses. Yn llai

cadarnhaol, roedd tua hanner yr ymatebion yn anghytuno bod ADY eu plentyn wedi'u hadnabod mewn modd amserol.

Er bod rhai rhieni wedi mynegi barn gadarnhaol ar y broses adnabod mewn sylwadau testun agored, cyfeiriodd eraill at y trafferthion yr oeddent wedi'u profi i sicrhau bod ADY eu plentyn yn cael ei nodi. Roedd y themâu a nodwyd yn aml yn ymwneud â phrosesau adnabod yn cynnwys rhieni nad oeddent yn teimlo y gwrandawyd arnynt; oedi wrth asesu, gwneud penderfyniadau ac adnabod ADY; effeithiau oedi ar ddatblygiad plant a lles plant a theuluoedd; pryderon am ddulliau ysgolion ac awdurdodau lleol o adnabod ADY, dulliau anghyson o adnabod, cynllunio a darparu, a diffyg cyfleoedd i blant gael cymryd rhan yn y broses.

## Cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Roedd dros hanner yr ymatebion gan rieni plant â CDU yn gadarnhaol ynghylch agweddau ar y broses gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gytuno bod pwrpas y cyfarfod wedi'i esbonio'n glir ymlaen llaw, bod y camau nesaf ar ôl y cyfarfod yn glir, a'u bod yn fodlon â'r amserlen ar gyfer trefnu'r cyfarfod.

Fodd bynnag, mewn sylwadau testun agored, nododd rhai rhieni heriau oedd yn gysylltiedig â'r broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi nad oedd cyfarfodydd bob amser yn cael eu cynnal mewn ffyrdd oedd yn gyson â dull ymarfer cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mynegodd eraill anfodlonrwydd gyda'r lefel o gyfathrebu a gawsant gan ddarparwyr addysg neu'r awdurdod lleol ynghylch y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn olaf, adroddodd rhai rhieni hefyd eu bod wedi profi oedi yn y broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Paratoi CDUau

Roedd mwyafrif yr ymatebion gan rieni plant â CDU yn cytuno bod eu barn wedi cael ei hystyried wrth baratoi CDU eu plentyn. Fodd bynnag, roedd cyfran is yn teimlo bod barn eu plentyn yn cael ei hystyried yn ystod y broses. Roedd dros hanner yr ymatebion yn fodlon â'r amser a gymerodd i ddatblygu CDU eu plentyn, tra bod tua hanner yn fodlon bod holl ADY eu plentyn wedi'u hadnabod a'u disgrifio'n gywir yn y CDU.

Mewn sylwadau testun agored, adroddodd nifer o rieni bryderon am ansawdd CDU eu plentyn, oedi yn ymwneud â CDU, ac anfodlonrwydd â phrosesau a chynllunio CDU.

## Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDdY)

Cytunodd dros hanner yr ymatebion gan rieni plant oedd â CDU eu bod yn deall y DDdY a amlinellwyd yn CDU eu plentyn. Fodd bynnag, mynegodd llai na hanner fodlonrwydd â pha mor hir y cymerodd i weithredu'r DDdY. Yn yr un modd, roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y DDdY a amlinellwyd yn y CDU yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu plentyn.

Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ar eu rhesymau dros anghytuno bod y DDdY oedd wedi'i amlinellu yn CDU eu plentyn yn diwallu eu hanghenion, y themâu a nodwyd amlaf oedd bod

y DDdY yn mynd i'r afael â rhai, ond nid pob un o anghenion eu plentyn; bod ansawdd y DDdY yn wael; neu fod y DDdY yn anghyson â CDU eu plentyn.

Dim ond lleiafrif bach o'r ymatebion oedd yn teimlo y dylid darparu DDdY eu plentyn yn y Gymraeg. Ymhlith y rhain, dywedodd dros hanner bod eu plentyn yn derbyn DDdY yn llawn yn Gymraeg.

## Pontio rhwng lleoliadau addysg

Roedd llai na hanner yr ymatebion gan rieni plant oedd wedi cael profiad o symud rhwng lleoliadau addysg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth glir am sut y byddai ADY eu plentyn yn cael eu diwallu yn ystod y pontio, a bod ADY eu plentyn yn cael eu diwallu wrth symud rhwng lleoliadau addysg.

## Herio penderfyniadau

Nododd tua hanner yr ymatebion fod rhieni yn ymwybodol o'u hawliau i herio penderfyniadau o dan y system ADY.

Dywedodd llai na hanner yr ymatebion eu bod wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol oedd yn ymwneud ag ADY. Cynigiodd y rhai a oedd wedi bod yn rhan o anghydfod rhagor o wybodaeth, gyda'r enghreifftiau mwyaf cyffredin yn cynnwys anghytundebau ynghylch penderfyniadau i beidio â darparu CDU i'w plentyn; anghytundebau ynglŷn â darparu cymorth i'w plentyn; ac anghytundebau ynghylch cynnig lle i'w plentyn mewn lleoliad addysg.

Ymhlith rhieni a ddywedodd eu bod wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol yn ymwneud ag ADY, dywedodd dros hanner fod yr anghytundeb wedi'i ddatrys.

## Bodlonrwydd â'r system ADY, gan gynnwys DDdY (rhieni dysgwyr sydd â CDU)

Cytunodd dros hanner yr ymatebion gan rieni plant â CDU fod lleoliad ysgol/addysg eu plentyn yn hybu eu cynhwysiant yng nghymuned yr ysgol. Roedd tua hanner yn cytuno bod y rhai sy'n cefnogi eu plentyn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, a bod y DDdY a dderbyniwyd gan eu plentyn yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu haddysg. Fodd bynnag, roedd llai na hanner yn cytuno bod ADY eu plentyn yn cael eu diwallu yn eu haddysg, a dim ond lleiafrif oedd yn cytuno bod y system ADY yn helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr.

Mewn sylwadau testun agored, roedd y themâu mwyaf cyffredin a nodwyd yn cynnwys safbwyntiau cymysg ar y cymorth gan ysgolion, gyda rhai yn adrodd bod cefnogaeth wael neu ddim cefnogaeth, tra bod eraill, er yn llai niferus, yn adrodd eu bod wedi derbyn digon o gefnogaeth; canfyddiad bod diffyg cyllid ac adnoddau i weithredu'r system ADY yn effeithiol; pryderon am gydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr; teimlad bod rhieni wedi wynebu 'brwydr' i sicrhau bod anghenion eu plentyn yn cael eu cydnabod a bod eu plentyn yn derbyn y gefnogaeth yr oeddent yn teimlo eu bod ei angen. Mewn achosion eraill, gwnaeth rhieni sylwadau ar gymhlethdod y system ADY, a nodi eu bod yn teimlo nad oedd

gan ddarparwyr addysg bob amser staff gyda'r arbenigedd a'r sgiliau perthnasol i gefnogi eu plentyn.

## Bodlonrwydd â'r system ADY (rhieni dysgwyr heb CDU)

Ymhlith rhieni dysgwyr heb CDU, roedd llai na hanner yn teimlo bod ysgol neu leoliad addysgol eu plentyn yn hybu eu cynhwysiant yng nghymuned yr ysgol. Ar ben hynny, dim ond lleiafrif bach oedd yn credu bod y system ADY yn gwella profiadau i rieni a gofalwyr, gyda'r gyfran uchaf o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Roedd sylwadau testun agored yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a nodwyd gan rieni plant â CDU.

## Barn gyffredinol ar yr hyn sy'n gweithio'n dda

Gofynnwyd i rieni wneud sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn gweithio'n dda o dan y system ADY. Atebodd nifer o rieni'r cwestiwn hwn drwy adrodd nad oedd unrhyw beth, neu mai ychydig iawn oedd, yn gweithio'n dda o dan y system ADY, a mynegi pryderon am faterion gan gynnwys diffyg capasiti (e.e. staff), adnoddau (e.e. cyllid) a darpariaeth a chymorth addas i'w plentyn.

Roedd themâu eraill a nodwyd yn aml yn ymwneud â'r hyn y teimlai rhieni oedd yn gweithio'n dda yn cynnwys profiadau cadarnhaol o brosesau CDU a chyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, safbwyntiau cadarnhaol ar ymgysylltu gyda CADYau, staff ysgol, a'r gefnogaeth yr oedd eu plentyn yn ei dderbyn. Gwnaeth rhai rhieni hefyd sylwadau ar gyfathrebu da a gwybodaeth ddefnyddiol gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Yn ogystal, mewn nifer lai o achosion, adroddodd rhieni fod prosesau adnabod wedi gwella, yn benodol ar gyfer plant o dan oed ysgol gorfodol.

## Barn gyffredinol ar yr hyn sy'n gweithio'n llai da

Gofynnwyd i rieni hefyd wneud sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn gweithio'n llai da o dan y system ADY ac i awgrymu unrhyw welliannau. Roedd y themâu a nodwyd amlaf yn cynnwys:

- pryderon am ddiffyg adnoddau capasiti a darpariaeth addas mewn darparwyr addysg, awdurdodau lleol a/neu gyrff iechyd
- yr angen i ddarparwyr addysg, awdurdodau lleol a chyrff iechyd wella'u cyfathrebu â rhieni
- diffyg arbenigedd am ADY ymhlith y gweithlu addysg a'r angen am fwy o ddysgu proffesiynol i ymarferwyr
- anghenion plant ddim yn cael eu diwallu
- prosesau (yn enwedig adnabod a phenderfyniadau i bennu ADY) yn cymryd rhy hir
- rhwystredigaeth na wrandawyd ar eu barn yn ddigonol
- heriau wrth weithredu'r system ADY, gan gynnwys ansawdd a chysondeb CDUau
- problemau gyda diffiniadau o ADY a DDdY

# Atodiad A: dadansoddiad ychwanegol – sylwadau testun agored

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno:

- dadansoddiad o sylwadau testun agored a ddarparwyd gan rieni a nododd nad oedd angen cymorth ychwanegol i ddysgu ar eu plentyn
- dadansoddiad o sylwadau testun agored a ddarparwyd gan rieni plant 3-4 oed nad oedd yn mynychu ysgol feithrin a gynhelir
- dadansoddiad o sylwadau testun agored oedd yn gofyn i rieni am wybodaeth ychwanegol am eu plentyn

## Nid oes angen cymorth ychwanegol ar y plentyn i ddysgu – sylwadau testun agored

Gan fod yr arolwg yn canolbwyntio ar brofiadau rhieni a gofalwyr plant sydd ag ADY, ni chyflwynwyd prif gwestiynau'r arolwg i ymatebwyr a atebodd nad oedd angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu. Fodd bynnag, gwahoddwyd yr ymatebwyr hyn i wneud sylwadau ar y system ADY a'u plentyn, mewn blwch sylwadau testun agored. Dim ond nifer gymharol fach o ymatebwyr (53) a ddewisodd wneud hynny. Mae'n bwysig nodi, felly, bod y canfyddiadau a nodir yn yr adran hon yn seiliedig ar nifer cyfyngedig o ymatebion. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr.

Mynegodd nifer o rieni y farn bod diffyg cyllid ac adnoddau yn arwain at ddiffyg cefnogaeth. Mewn rhai achosion, nododd rhieni nad oedd gan eu plentyn ADY, yn hytrach roeddent yn gwneud sylwadau yn seiliedig ar eu profiadau fel ymarferwyr neu weithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r system ADY. Roedd y rhieni hyn yn teimlo:

- yr oedd y system wedi'i thanariannu, gan arwain at blant yn methu â chael mynediad at ddarpariaeth arbenigol
- bod diffyg athrawon/staff, yn y blynyddoedd cynnar yn enwedig, yn golygu nad oedd plant nad oedd ganddynt ADY ond a oedd angen cymorth gwahaniaethol yn gysylltiedig â darllen, ffoneg a datblygu sgiliau cymdeithasol yn derbyn darpariaeth briodol
- yr oedd gor-ddibyniaeth ar gynorthwywyr addysgu a dim digon o gymorth un-i-un gydag athrawon ar gael

Nododd rhieni eraill nad oedd ADY yn cael ei adnabod yn ddigon cynnar, a oedd yn cael effaith niweidiol ar ddysgwyr. Esboniodd rhai o'r rhieni hyn eu bod ar restrau aros i'w plant gael eu hasesu ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig neu ADHD. Roedd eraill yn teimlo y gellid gwneud mwy i sgrinio am, ac adnabod ADY 'cudd', gan gynnwys y rhai oedd yn gysylltiedig â niwrowahaniaeth neu anableddau niwro-ddatblygiadol.

Cyfeiriodd rhai rhieni at anghenion eu plant nad oeddent yn cael eu diwallu, gan gynnwys anghenion oedd yn gysylltiedig â chyflyrau meddygol neu anghenion oedd yn cael eu masgio gan blant. Roedd rhai o'r rhieni hyn yn teimlo nad oedd ADY yn cael eu hadnabod neu eu bod yn cael eu hystyried fel materion oedd yn gysylltiedig ag ymddygiad yn unig, heb fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad gwael. Roedd y rhieni hyn yn teimlo na wrandawyd arnynt ac yn pwysleisio'r frwydr oedd yn gysylltiedig â cheisio sicrhau cydnabyddiaeth ar gyfer cyflyrau eu plant.

Cyfeiriodd rhai rhieni at ystod o ffyrdd y mae dysgu eu plant yn cael ei effeithio o ganlyniad iddynt beidio â derbyn yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn gymorth priodol. Roedd hyn yn aml yn cynnwys oedi lleferydd, sillafu a darllen, a materion emosiynol oedd yn effeithio ar eu dysgu. Roedd yna deimlad ymhlith rhai rhieni bod carfan o ddysgwyr yn 'syrthio yn y bwlch' neu eu bod wedi cael eu hanghofio: adroddwyd bod y rhain yn ddysgwyr nad oedd ganddynt CDUau ond yr oedd angen cymorth gwahaniaethol penodol arnynt i'w galluogi i gael mynediad at ddysgu mewn ffyrdd oedd yn eu cefnogi.

## Plentyn 3-4 oed nad oedd yn mynychu ysgol feithrin a gynhelir – sylwadau testun agored

Canolbwyntiodd yr arolwg ar brofiadau rhieni a gofalwyr plant o oedran ysgol gorfodol (neu’n uwch) neu a oedd yn mynychu lleoliad ysgol a gynhelir. Ni chyflwynwyd prif gwestiynau'r arolwg i rieni plant 3-4 oed a ddywedodd nad oedd eu plentyn yn mynychu ysgol feithrin a gynhelir oedd yn cynnig addysg gynnar rhan-amser i blant 3-4 oed. Fodd bynnag, gwahoddwyd yr ymatebwyr hyn i wneud sylwadau ar y system ADY a'u plentyn, trwy flwch sylwadau testun agored. Dim ond nifer fach o ymatebwyr (5) a ddewisodd wneud hynny. Y thema a nodwyd amlaf ymhlith yr ymatebion hyn oedd adroddiadau o ddiffyg darpariaeth addas a/neu ddiffyg staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion eu plentyn.

## Anghenion dysgu

Gofynnwyd i rieni a gofalwyr sut y byddent yn disgrifio anghenion dysgu eu plentyn ac i nodi'n fyr unrhyw anawsterau dysgu penodol neu anableddau a allai fod gan eu plentyn. Roedd hwn yn gwestiwn testun agored, gan roi cyfle i ymatebwyr nodi gwybodaeth am anghenion eu plentyn yng ngeiriau eu hunain.

Dadansoddwyd yr ymatebion a'u codio gan dynnu ar y categorïau 'math o angen' a ddefnyddir yn y PLASC i lywio'r broses. Mae'r mathau o angen a adroddir amlaf yn cael eu crynhoi isod.

Yn dilyn y dull a gymerwyd o adrodd anghenion ADY ar StatsCymru, roedd y dadansoddiad data yn seiliedig ar y nifer o weithiau y adroddwyd ar bob ADY e.e. os oedd rhiant/gofalwr ar gyfer eu plentyn yn adrodd am 'Dyslecsia' a 'Dyspracsia', cafodd hyn ei godio ddwywaith, unwaith ar gyfer pob math o angen. Felly, roedd nifer yr 'adroddiadau' o ADY ar draws y

sampl yn fwy na nifer y plant a gynrychiolir yn data'r arolwg, gan fod llawer o rieni/gofalwyr yn adrodd mwy nag un angen.

Atebodd cyfanswm o 1621 o rieni a gofalwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain:

- nododd 941 o ymatebwyr mewn cwestiwn arolwg diweddarach fod gan eu plentyn 'CDU'
- nododd 511 nad oedd gan eu plentyn 'CDU'
- roedd 169 o ymatebwyr ddim yn siŵr a oedd gan eu plentyn CDU

Ceir crynodeb o’r data ar y math o ADY a adroddwyd gan ymatebwyr isod. Mae'n bwysig nodi bod yr ymatebion yn adlewyrchu'r mathau o angen a adroddwyd gan rieni/gofalwyr a allai fod yn gyson â'r ADY a nodir mewn CDUau neu wedi'i ddogfennu mewn mannau eraill.

Roedd yr ADY a ddisgrifiwyd amlaf ar draws y sampl fel a ganlyn:

- Awtistiaeth neu Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD) oedd y math o ADY a adroddwyd amlaf gan ymatebwyr yr arolwg; cyfeiriodd ychydig dros hanner yr holl ymatebwyr at awtistiaeth, mewn llawer o achosion ochr yn ochr â mathau eraill o angen

- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) oedd y math o angen dysgu a adroddwyd ail amlaf, a grybwyllwyd gan ychydig o dan draean o'r holl ymatebwyr

- Disgrifiodd tua un o bob pump ymatebydd anghenion dysgu oedd yn gysylltiedig ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol

- Adroddwyd am anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu gan tua un o bob wyth ymatebydd. Dywedodd cyfran debyg o ymatebwyr (tua un o bob wyth) fod gan eu plant ddyslecsia

- Disgrifiodd un o bob deg ymatebydd anghenion dysgu eu plentyn fel rhai oedd yn gysylltiedig ag anawsterau dysgu dwys a lluosog neu anawsterau dysgu difrifol

- Cyfeiriodd cyfrannau llai o'r ymatebwyr at anawsterau corfforol a meddygol, dyspracsia, namau clyw neu golwg, a dyscalculia

## Y math o gymorth a ddarperir – sylwadau testun agored

Gofynnwyd i rieni wneud sylwadau ar y math o gymorth a ddarperir i ddiwallu anghenion eu plentyn. Er bod y cwestiwn yn gofyn am natur y cymorth a ddarperir, datgelodd ymatebion ystod eang o safbwyntiau ar briodoldeb a digonolrwydd y gefnogaeth. Atebodd cyfanswm o 1554 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynnwys y rhai nad oedd gan eu plant CDUau a'r rhai nad oedd gan eu plant CDUau. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r themâu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr.

Cyfeiriodd rhieni at fathau penodol o gymorth – yn aml gan ddefnyddio'r term 'ymyriadau' – a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi agweddau penodol ar ddysgu, neu yn cynnwys gweithgareddau wedi'u targedu neu addysgeg wahaniaethol. Roedd hyn fel arfer yn cynnwys:

- cymorth yn ymwneud â sgiliau neu feysydd penodol o'r cwricwlwm (e.e. cymorth ychwanegol gyda darllen, ysgrifennu, rhifedd), yn aml yn cynnwys sesiynau atodol y tu allan i ddosbarthiadau rheolaidd trwy ddarpariaeth neu strategaethau unigol
- cymorth wedi'i dargedu ar sail therapi ar gyfer dysgu (therapi lleferydd ac iaith; cylchedau synhwyraidd; therapi Lego; cymorth gan seicolegwyr addysgol, therapyddion galwedigaethol neu gymorth arbenigol arall)

Pwysleisiodd nifer o rieni bwysigrwydd y cymorth un-i-un a oedd ar gael i'w plentyn. Adroddwyd bod faint o amser un-i-un a ddarperir i ddysgwyr yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn, ar y ddarpariaeth a nodir mewn CDUau ac, mewn rhai achosion, ar yr adnoddau sydd ar gael mewn ysgolion a lleoliadau. Ar gyfer dysgwyr gyda'r lefelau uchaf o angen, adroddwyd yn aml bod cymorth llawn amser neu gymorth un-i-un helaeth ar gael i helpu plant gyda thasgau corfforol ac ymarferol yn ystod y diwrnod ysgol, gan gynnwys hygyrchedd o amgylch yr ysgol a gofal personol. Nododd eraill gefnogaeth un-i-un ar gyfer agweddau penodol o ddysgu (llythrennedd neu rifedd) neu am nifer cyfyngedig o oriau y dydd/wythnos.

Roedd nifer sylweddol o ymatebion yn cyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth ychwanegol a ddarperir gan gynorthwywyr addysgu neu ystafell ddosbarth. Mewn llawer o achosion, roedd yr ymatebion hyn yn darparu cymharol ychydig o fanylion am y gefnogaeth benodol a gynigir gan gynorthwywyr addysgu. Pan oedd gwybodaeth am y cymorth a ddarparwyd wedi'i chynnwys mewn ymatebion, roedd yn cwmpasu meysydd fel: helpu i ysgrifennu yn y dosbarth; cefnogi tasgau gwaith i helpu dysgwyr i ddeall tasgau a chael mynediad i'r cwricwlwm; cefnogi dysgwyr i gymryd rhan yn y ddarpariaeth sgiliau bywyd; goruchwylio a monitro ymddygiad; nodi pryd mae angen sesiynau ‘amser allan’ ar blant a goruchwylio trosglwyddo i fannau tawel. Nododd yr ymatebion bwysigrwydd cefnogaeth hyblyg a ddarperir gan gynorthwywyr addysgu wrth annog dysgwyr i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau, goruchwylio a chynorthwyo dysgwyr yn y dosbarth, a darparu sicrwydd.

Ymatebodd nifer sylweddol o rieni i'r cwestiwn hwn trwy nodi bod gan eu plentyn CDU, gyda rhai yn nodi bod y cymorth a ddarparwyd yn adlewyrchu'r ddarpariaeth a nodwyd yn eu cynllun fodd bynnag heb gynnig manylion am y gefnogaeth. Mynegodd lleiafrif o'r rhai a nododd fod gan eu plentyn CDU y farn nad oedd y DDdY a ddarperir yn diwallu anghenion eu plentyn yn llawn nac yn adlewyrchu'r gofynion a nodir yn y cynllun. Priodolodd yr ymatebwyr hyn i ddiffyg staff neu bwysau cyllid / cyllideb ar ysgolion.

Nododd rhai rhieni fod eu plant yn cael eu cefnogi trwy gael amser i ffwrdd o'u dosbarth neu wersi arferol. Roedd hyn yn cynnwys cael mynediad i le tawel, neu 'ystafell ADY', 'sylfaen' neu 'ardal amser allan' dynodedig. Cyfeiriodd ymatebwyr at eu plant yn gallu cymryd seibiannau ymennydd, seibiannau synhwyraidd neu seibiannau symud. Cynlluniwyd y rhain

fel rhan o'u DDdY neu eu cyrchu pan fo angen. Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriodd llawer o rieni at y gefnogaeth a gafodd eu plant fel rhan o ddosbarthiadau neu grwpiau meithrin.

Nododd ymatebwyr fod eu plant yn dilyn amserlen lai neu wedi'i deilwra i weddu i'w hanghenion. Ystyriwyd bod hyn yn gefnogol wrth helpu i sicrhau bod y cwricwlwm a'r profiadau dysgu yn cael eu darparu mewn ffyrdd oedd yn diwallu eu hanghenion. Roedd amserlenni llai neu gwricwlwm wedi'u haddasu ar adegau yn cynnwys datgymhwyso rhai pynciau i ganolbwyntio ar sgiliau craidd neu feysydd dysgu. Enghreifftiau eraill o addasiadau i addysgu a dysgu i gefnogi plant ag ADY a ddarparwyd gan ymatebwyr oedd dysgwyr yn cael amser ychwanegol i gwblhau tasgau neu yn ystod profion ac arholiadau.

Cyfeiriodd rhai rhieni at y gefnogaeth emosiynol a lles a ddarperir i blant yn yr ysgol. Cyflwynwyd hyn yn aml fel rhan o'r rhaglen Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA), ymyrraeth mewn ysgolion a gynlluniwyd i gefnogi lles emosiynol plant a phobl ifanc, yn enwedig dysgwyr oedd yn agored i niwed yn emosiynol. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr hyn at sesiynau ELSA rheolaidd a rhai yn nodi bod gwiriadau lles dyddiol ar waith i'w plant.

Nododd ymatebwyr fod eu plant yn cael eu haddysgu mewn grwpiau a dosbarthiadau llai er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn lefelau priodol o sylw a chefnogaeth. Mewn rhai achosion, addysgwyd dysgwyr mewn grwpiau llai ar gyfer rhifedd a darpariaeth llythrennedd.

Cynigiodd ymatebwyr enghreifftiau o'r offer neu'r deunyddiau a ddefnyddir gan ddysgwyr i wella eu profiad dysgu a gwella mynediad i'r cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys gliniaduron / Chromebooks; amddiffynwyr clust; teganau fidget; clustogau wobble; print bras a thaflenni hygyrch; a dyfeisiau a thechnoleg gynorthwyol eraill.

Defnyddiodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr y cwestiwn i nodi nad oedd eu plentyn wedi derbyn unrhyw gefnogaeth neu ychydig iawn o gefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion. Nododd rhai fod y gefnogaeth wedi cael ei atal neu ei leihau; Esboniodd rhieni eraill eu bod wedi bod yn rhan o anghydfodau gydag ysgolion ynglŷn â mynediad at gymorth ac yn teimlo bod eu plant yn cael eu ‘gadael i lawr' gan ysgolion a phartneriaid eraill ar draws y system ADY.

Mynegodd ymatebwyr eraill y farn bod y cymorth a ddarperir i'w plentyn yn gyfyngedig ac nad oedd yn diwallu eu hanghenion yn ddigonol. Awgrymodd ymatebwyr nifer o ffactorau a gyfrannodd at beidio â diwallu anghenion, gan gynnwys: ysgolion nad oes ganddynt y wybodaeth na'r arbenigedd i allu darparu'r cymorth angenrheidiol; diffyg mynediad at wasanaethau arbenigol neu therapyddion; a diffyg cyllid o fewn y system i gyflogi'r staff cymorth ychwanegol sydd eu hangen.

Mewn cyferbyniad, atebodd cyfran lai o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn trwy nodi bod eu plentyn wedi derbyn cymorth o ansawdd da oedd yn diwallu eu hanghenion yn briodol. Roedd hyn yn cynnwys dysgwyr yn yr ysgol brif ffrwd ac mewn darpariaeth arbenigol. Talodd yr ymatebwyr hyn deyrnged i gefnogaeth ac ymroddiad staff oedd yn deall ac yn rheoli anghenion dysgu plant mewn gwahanol gyd-destunau.

## Pontio rhwng lleoliadau – sylwadau testun agored

Gwahoddwyd rhieni y symudodd eu plentyn o un lleoliad addysg i'r llall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i nodi'r mathau o leoliadau yr oedd eu plentyn wedi symud rhyngddynt. Roedd 151 o atebion i'r cwestiwn hwn.

Mae'r lleoliadau yr adroddodd rhieni amlaf yr oedd eu plant wedi symud rhynddynt wedi'u nodi isod:

- O un cyfnod addysg i'r llall – meithrin i'r cynradd, cynradd i'r uwchradd ac uwchradd i addysg bellach. Ar gyfer y cyntaf a'r ail o'r rhain, mewn rhai achosion, adroddodd rhieni fod eu plentyn wedi symud rhwng cyfnodau o leoliad prif ffrwd i leoliad arbenigol. Ar gyfer yr olaf o'r rhain, mewn rhai achosion adroddodd rhieni fod eu plentyn wedi symud o ddarpariaeth arbenigol mewn ysgol i leoliad addysg bellach prif ffrwd
- Rhwng lleoliadau o fewn yr un cyfnod addysg – prif ffrwd i brif ffrwd (yn tueddu i fod oherwydd adleoli), gan gynnwys o'r cyfrwng Cymraeg i'r cyfrwng Saesneg; prif ffrwd i brif ffrwd gyda darpariaeth arbenigol; prif ffrwd i ddarpariaeth arbenigol; darpariaeth arbenigol i ddarpariaeth arbenigol
- O ysgol i AHY
- AHY i ddarpariaeth arbenigol
- O'r ysgol i addysg ddewisol yn y cartref
- O addysg ddewisol yn y cartref i'r ysgol uwchradd
- O addysg ddewisol yn y cartref i addysg bellach
- O un dosbarth i'r llall o fewn yr un lleoliad

## Pwy ddarparodd DDdY – sylwadau testun agored

Atebodd llawer o'r ymatebwyr 'Na' neu 'Dim', a dim ond nifer fach o ymatebwyr (cyfanswm o 43) a ddarparodd enghreifftiau neu enwodd sefydliadau/mathau o rôl. Yr atebion a ddarparwyd oedd:

- Therapyddion iaith a lleferydd
- Ymarferwyr yn yr ysgol/lleoliad
- Therapyddion galwedigaethol
- Seicolegwyr addysgol
- Gweithwyr iechyd proffesiynol arbenigol
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Awdurdod lleol
- Trydydd partïon allanol (gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector; darparwyr preifat)